Senedd Cymru

**Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig**

# Llwybrau prentisiaeth

Gorffennaf 2025



senedd.cymru

Senedd Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl. Mae'r Senedd, fel y'i gelwir, yn deddfu ar gyfer Cymru, yn cytuno ar drethi yng Nghymru, ac yn dwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Gallwch weld copi electronig o'r ddogfen hon ar wefan y Senedd:
**www.senedd.cymru/SeneddEconomi**

Gellir cael rhagor o gopïau o'r ddogfen hon mewn ffurfiau hygyrch, yn cynnwys Braille, print bras, fersiwn sain a chopïau caled gan:


**Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig**
**Senedd Cymru**
**Bae Caerdydd**
**CF99 1SN**

Ffôn: **0300 200 6565**
E-bost: **SeneddEconomi@senedd.cymru**
X: **@SeneddEconomi**



**© Hawlfraint Comisiwn y Senedd 2025**
Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difrïol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn y Senedd sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

Senedd Cymru
**Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig**

# Llwybrau prentisiaeth

Gorffennaf 2025

senedd.cymru

# Am y Pwyllgor

Sefydlwyd y Pwyllgor ar 23 Mehefin 2021. Ceir ei gylch gwaith yn:
**www.senedd.cymru/SeneddEconomi**

---

## Aelodau cyfredol y Pwyllgor:



**Cadeirydd y Pwyllgor:**
**Andrew RT Davies AS**
Ceidwadwyr Cymreig



**Hannah Blythyn AS**
Llafur Cymru



**Hefin David AS**
Llafur Cymru



**Luke Fletcher AS**
Plaid Cymru



**Samuel Kurtz AS**
Ceidwadwyr Cymreig



**Jenny Rathbone AS**
Llafur Cymru

# Cynnwys

**Rhagair y Cadeirydd** .......... **5**

**Argymhellion a Chasgliadau** .......... **6**

**1. Cefndir** .......... **9**

**2. Gwybodaeth am brentisiaethau** .......... **11**

Ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o brentisiaethau .......... 11

Cyfleoedd profiad gwaith .......... 18

Ein barn ni .......... 21

**3. Cymorth a mynediad cyfartal ar gyfer dysgwyr** .......... **23**

Argaeledd cyrsiau a mynediad atynt .......... 23

Rhwystrau o ran ymgymryd â phrentisiaethau .......... 26

Ein barn ni .......... 28

**4. Llwybrau rhwng gwahanol lefelau o brentisiaethau** .......... **30**

Fframweithiau a llwybrau prentisiaeth .......... 30

Lefelau prentisiaeth .......... 32

Ein barn ni .......... 38

**5. Cyflogwyr sy'n ymgysylltu â phrentisiaethau** .......... **40**

Heriau sy'n wynebu cyflogwyr .......... 40

Cymorth i gyflogwyr ymgysylltu â'r rhaglen prentisiaethau .......... 41

Ein barn ni .......... 43

**6. Anghenion economaidd** .......... **44**

Ein barn ni .......... 45

**7. Rôl Llywodraeth Cymru** .......... **46**

Strategaeth addysg alwedigaethol .......... 47

Medr ..... 49

Partneriaethau Sgiliau Rhanbarthol ..... 50

Ein barn ni ..... 52

**Atodiad 1: Rhestr o sesiynau tystiolaeth lafar ..... 54**

**Atodiad 2: Rhestr o'r dystiolaeth ysgrifenedig ..... 56**

# Rhagair y Cadeirydd

I lawer o bobl sydd am ddilyn llwybr addysgol, prentisiaethau yw'r dewis gorau. Maen nhw'n cyfuno dysgu ac ennill incwm, gwaith a hyfforddiant. Gwnaeth y prentisiaid y gwnaethom ymgysylltu â nhw fel rhan o'r ymchwiliad fwynhau eu cyrsiau ac yn wir, ac maen nhw'n ffynnu o ganlyniad i'r cyfleoedd hyn.

Fodd bynnag, clywsom fod pobl sydd am fwrw prentisiaeth yn wynebu llawer o heriau, yn enwedig o ran deall a defnyddio'r system brentisiaethau. Mae'r llwybr academaidd yn glir, ac mae ysgolion yn gweithio'n galed i baratoi eu myfyrwyr ar gyfer cyrsiau Safon Uwch a gradd, ond nid ar gyfer llwybrau prentisiaeth.

A dweud y gwir, clywsom am gymhellion gwrthnysig sy'n annog ysgolion i beidio â chaniatáu i'w myfyrwyr gysylltu â cholegau. Golyga hyn fod llawer o bobl ifanc sydd byth yn dysgu am y cyrsiau sydd ar gael na gweld y llwybr addysgol posibl arall sydd o'u blaen. Bydd y myfyrwyr hyn wedyn yn dilyn y llwybr academaidd, er gwaethaf y posibilrwydd y bydden nhw'n llawer hapusach ac yn fwy llwyddiannus o ddilyn llwybr galwedigaethol a allai fod yn fwy addas iddyn nhw.

Yn yr adroddiad hwn mae wyth argymhelliad a 10 casgliad sydd â'r nod o chwalu dirgelwch y llwybr prentisiaeth a chefnogi pobl i ddewis y llwybr addysgol gorau. Mae'r argymhellion yn cynnwys sicrhau bod ysgolion a cholegau'n cydweithio i helpu pobl ifanc i ddeall y llwybr galwedigaethol, gwella recriwtio a chadw hyfforddwyr ac aseswyr, a gweithio i wella canllawiau i gyflogwyr a gwneud cynnydd cyflymach wrth ddatblygu strategaeth addysg a hyfforddiant galwedigaethol.

Os bydd Llywodraeth Cymru yn gwrando ar y cyngor yn yr adroddiad hwn, credaf y bydd pobl ledled Cymru yn gallu gwneud dewisiadau gwell o ran eu haddysg a'u hyfforddiant. Bydd hyn yn ei dro yn caniatáu i bobl wella eu sgiliau a chynyddu eu potensial i ennill incwm, bydd yn sicrhau gweithlu mwy cynhyrchiol i gyflogwyr, a bydd yn gwella ein heconomi.

Hoffwn ddiolch i bawb a roddodd dystiolaeth i'r ymchwiliad, a'r bobl a gymerodd ran yn ein gwaith ymgysylltu yn enwedig, am helpu'r Pwyllgor i feithrin ein dealltwriaeth a gwneud ein hargymhellion.



**Andrew RT Davies AS**
Cadeirydd

# Argymhellion a Chasgliadau

**Argymhelliad 1.** Mae'r angen am negeseuon cliriach a chodi ymwybyddiaeth o brentisiaethau mewn ysgolion yn glir. Rhaid i Lywodraeth Cymru weithio i sicrhau bod ysgolion, colegau a chyflogwyr yn ymgysylltu â'i gilydd i gyflwyno cyrsiau galwedigaethol fel dewis o safon. Fe allai Llywodraeth Cymru ddymuno archwilio'r sylfaen dystiolaeth ar gyfer cyflwyno deddfwriaeth mynediad i ddarparwyr fel rhan o'r ateb. Gallai hyn gynnwys archwilio gwersi a ddysgwyd yn sgil cyflwyno Cymal Baker, a gwelliannau dilynol a ddaeth i rym ar ddechrau'r flwyddyn hon, yn Lloegr. Dylai Llywodraeth Cymru ysgrifennu at y Pwyllgor hwn i esbonio ei chanfyddiadau a'i barn ar ddeddfwriaeth mynediad i darparwyr. Tudalen 22

**Argymhelliad 2.** Dylai Llywodraeth Cymru roi esboniad manwl am y gostyngiad yn nifer y rhai sy'n dechrau ar brentisiaethau yn ôl y sector sgiliau a lefel prentisiaethau, a sut mae hyn yn effeithio ar y dewisiadau sydd ar gael ar ôl blwyddyn 11. Tudalen 22

**Argymhelliad 3.** Mae heriau clir ac arwyddocaol yn wynebu darparwyr prentisiaethau o ran recriwtio a chadw hyfforddwyr ac aseswyr medrus. Dylai Llywodraeth Cymru archwilio'r rhwystrau a gweithio gyda cholegau i ystyried cymhellion a ffyrdd o fynd i'r afael â'r rhain. Tudalen 29

**Argymhelliad 4.** Er nad yw'r isafswm cyflog ar gyfer prentisiaethau dan reolaeth Llywodraeth Cymru, dylai ystyried ffyrdd o gynyddu cyflog gwirioneddol ar gyfer prentisiaethau fel rhan o'i hagenda gwaith teg. Tudalen 29

**Argymhelliad 5.** Dylai Llywodraeth Cymru archwilio atebion cyllidol i ehangu'r ddarpariaeth gradd-brentisiaethau, ond rhaid iddi hefyd sicrhau gwerth am arian fel rhan o'r gwaith hwn. Tudalen 39

**Argymhelliad 6.** Dylai Llywodraeth Cymru a Medr adolygu'r wybodaeth bresennol a sicrhau bod gwybodaeth a chanllawiau cyhoeddedig i gyflogwyr yn nodi'n glir y cwestiynau cyffredin ynghylch cyflogi prentis. Dylai unrhyw ddeunydd newydd fod yn seiliedig ar yr hyn mae cyflogwyr yn dweud eu bod nhw ei angen. Rhaid i Lywodraeth Cymru a Medr hefyd ystyried 'prinder amser' busnesau bach a chanolig wrth ymgysylltu â busnesau a'i gwneud mor hawdd â phosibl iddynt fod yn rhan o raglenni prentisiaethau. Tudalen 43

**Argymhelliad 7.** Rhaid i Lywodraeth Cymru wneud cynnydd cyflymach wrth ddatblygu strategaeth addysg a hyfforddiant galwedigaethol, fel yr argymhellir gan Grŵp Llywio Cymwysterau Galwedigaethol Cymru a'r adroddiad Pontio i Fyd

Gwaith. Dylai'r Pwyllgor gael yr wybodaeth ddiweddaraf am y cynnydd hyd yn hyn ac yn rheolaidd o hyn ymlaen. ........ Tudalen 53

**Argymhelliad 8.** Rhaid i Lywodraeth Cymru weithio gyda Phartneriaethau Sgiliau Rhanbarthol, Gyrfa Cymru a rhanddeiliaid eraill i gasglu a deall gwybodaeth am y farchnad lafur ledled Cymru. ........ Tudalen 53

**Casgliad 1.** Er bod rhai gwelliannau wedi bod yn ystod y blynyddoedd diwethaf, mae mater cydraddoldeb parch rhwng addysg academaidd ac addysg alwedigaethol yn parhau i fod yn amlwg yng Nghymru. Bydd mynd i'r afael â'r mater hwn yn llawn yn gofyn am waith sylweddol, nid yn unig gan Lywodraeth Cymru a phobl sy'n gweithio yn y sector addysg a sgiliau, ond hefyd gan y gymdeithas sifil yn ehangach. Mae angen mynd i'r afael â'r canfyddiad bod prentisiaethau yn ail ddewis. Fel rhan o hyn mae'n hanfodol y dylid cyflwyno opsiynau clir a diduedd i bob dysgwr. ........ Tudalen 22

**Casgliad 2.** Mae pwysigrwydd profiad gwaith ystyrlon ac wedi ei dargedu yn glir. Hoffai'r Pwyllgor weld rhaglen Gyrfa Cymru ar gyfer lleoliadau sy'n cael ei thargedu at unigolion penodol, fel y rhai sydd mewn perygl o beidio â bod mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant (NEET), yn cael ei hehangu. ........ Tudalen 22

**Casgliad 3.** Mae'r gostyngiad yn nifer y rhai sy'n cychwyn ar brentisiaethau yn bryder sydd angen esboniad pellach. ........ Tudalen 22

**Casgliad 4.** Dylai Llywodraeth Cymru archwilio ffyrdd y gall wella mynediad at drafnidiaeth, gan gynnwys edrych ar gost trafnidiaeth, i bobl sy'n astudio ar gyfer prentisiaethau, yn enwedig y rhai o ardaloedd gwledig. Rydym yn croesawu cynllun peilot tocynnau bws £1 Llywodraeth Cymru a hoffem weld unrhyw ddadansoddiad o'i effaith ar fynediad pobl ifanc at brentisiaethau. ........ Tudalen 29

**Casgliad 5.** Yn aml mae'n her sylweddol i ddysgwyr allu mapio llwybr gyrfa drwy'r lefelau prentisiaethau, yn enwedig o'i gymharu â llwybr academaidd cymwysterau. Mae rolau i Medr, Partneriaethau Sgiliau Rhanbarthol a Llywodraeth Cymru eu chwarae i sicrhau bod y ddarpariaeth a gynigir a'r llwybr drwyddo yn ddealladwy i ddarpar-brentisiaid, y rhai sydd eisoes wedi cychwyn ar gyrsiau, darparwyr a chyflogwyr. ........ Tudalen 39

**Casgliad 6.** Nodwn fod y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg wedi casglu tystiolaeth ar Brentisiaethau Iau fel rhan o'i ymchwiliad Llwybrau Ôl-16. ........ Tudalen 39

**Casgliad 7.** Roedd gan y Pwyllgor ddiddordeb mewn clywed safbwyntiau rhanddeiliaid ynghylch prentisiaethau iau. Rhagwelir y bydd y pwnc hwn yn cael sylw yn y gwaith sy'n cael ei wneud gan y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg ar Lwybrau at Addysg Ôl-16, ac edrychwn ymlaen at ddarllen y canfyddiadau. ......Tudalen 39

**Casgliad 8.** Mae'r Pwyllgor yn croesawu adolygiad Medr o brentisiaethau. Fel rhan o'r adolygiad hwn, dylai Medr archwilio sut gall y system brentisiaethau gyffredinol fod yn fwy hyblyg ac ymatebol i anghenion cyflogwyr a'r economi, yn enwedig y newid i sero net a'r dirwedd dechnolegol sy'n newid yn gyflym. ......Tudalen 39

**Casgliad 9.** Mae cyflogwyr yn hanfodol i raglenni prentisiaeth llwyddiannus. Fodd bynnag, maent yn wynebu nifer o rwystrau o ran ymgysylltu â'r system a chymryd prentis – er enghraifft, diffyg ymwybyddiaeth o fanteision cyflogi prentis, trafferth darparu llwybrau dilyniant i brentisiaid, ac anawsterau llywio'r system. Mae'r heriau hyn yn fwy i fusnesau bach a chanolig ac yn fwy cyffredin mewn rhai sectorau nag eraill. ......Tudalen 43

**Casgliad 10.** Mae'r Pwyllgor yn bryderus iawn am effaith y gostyngiad yn nifer y rhai sy'n dechrau ar brentisiaethau. Gallai hyn arwain at heriau sgiliau tymor hwy mewn rhai sectorau. Mae angen i Lywodraeth Cymru sicrhau ei bod yn deall yn llawn beth yw effaith hyn ar hyder busnesau, dysgwyr ac economi Cymru. ......Tudalen 52

**Casgliad 11.** Mae'r Pwyllgor yn pryderu am y diffyg brys wrth fynd i'r afael â materion o fewn ac o amgylch y rhaglen brentisiaethau. Yn benodol, os nad yw prentisiaethau yn diwallu anghenion cyflogwyr a'r economi, bydd cyfleoedd yn cael eu colli mewn sectorau sy'n dod i'r amlwg a sectorau lle mae pethau'n newid yn gyflym. ......Tudalen 53

# 1. Cefndir

Mae prentisiaethau yn allweddol i helpu dinasyddion Cymru i gynyddu eu sgiliau ond hefyd i helpu i ddarparu'r sgiliau priodol i yrru ein heconomi ymlaen a chynhyrchu twf economaidd. Penderfynodd y Pwyllgor gynnal yr ymchwiliad hwn i edrych ar fynediad at y rhaglen brentisiaethau a llwybrau drwyddi.

**1.** Cylch gorchwyl yr ymchwiliad oedd ystyried y canlynol:

- Llwybrau rhwng gwahanol lefelau o brentisiaethau: Pa heriau sy'n wynebu prentisiaid wrth geisio dilyn llwybrau gyrfa drwy wahanol lefelau o brentisiaethau – er enghraifft, o brentisiaeth iau i radd-brentisiaeth. A yw hyn yn anoddach mewn rhai gyrfaoedd/sectorau nag eraill.
- Yr economi: I ba raddau mae llwybrau prentisiaeth yn cefnogi anghenion busnesau Cymru ac yn cyfrannu at lenwi bylchau o ran sgiliau yn economi Cymru.
- Cyflogwyr: Sut gellir ymgysylltu cyflogwyr â'r gwaith o hwyluso'r llwybrau hyn a denu prentisiaid. A oes angen cymorth penodol i helpu microfusnesau, a busnesau bach a chanolig (BBaCh), i ymgysylltu â'r rhaglen brentisiaethau.
- Gwybodaeth am brentisiaethau: Sut gellir rhannu arfer dda rhwng gwasanaethau gyrfaoedd, ysgolion, colegau a chyflogwyr o ran hyrwyddo prentisiaethau a darparu profiad gwaith ystyrlon.
- Cymorth a mynediad cyfartal ar gyfer dysgwyr: I ba raddau mae llwybrau prentisiaeth yn agored i holl bobl ifanc Cymru a pha rwystrau sy'n wynebu grwpiau penodol o ran demograffig neu ardal ddaearyddol.
- Rôl Llywodraeth Cymru: Sut mae polisïau'n cefnogi llwybrau prentisiaeth ac a oes rhwystrau y mae'n rhaid ymdrin â nhw yn hynny o beth. Pa rôl sydd gan Lywodraeth Cymru, Partneriaethau Sgiliau Rhanbarthol a rhanddeiliaid eraill o ran nodi a chyfleu anghenion economaidd ac

anghenion o ran sgiliau i helpu i lywio fframweithiau prentisiaeth a'r ffordd y caiff cymwysterau eu cynnig.

**2.** Cynhaliodd y Pwyllgor ymgynghoriad rhwng dydd Iau, 12 Rhagfyr 2024 a dydd Gwener, 7 Chwefror 2025 a chynhaliodd bum sesiwn dystiolaeth yn Ionawr a Chwefror 2025. Yn y sesiynau hyn, clywodd y Pwyllgor gan amrywiaeth o randdeiliaid gan gynnwys arbenigwyr annibynnol, darparwyr, partneriaethau sgiliau rhanbarthol a Llywodraeth Cymru.

**3.** Yn ogystal, comisiynodd y Pwyllgor Dîm Ymgysylltu â Dinasyddion y Senedd i hwyluso pum grŵp ffocws ar-lein a chyfweliad â phrentisiaid presennol a rhai sydd wedi cwblhau prentisiaethau ledled Cymru i gasglu eu barn a'u profiadau. Rhannwyd yr wybodaeth hon gyda'r Pwyllgor mewn adroddiad sydd wedi ei gyhoeddi ochr yn ochr â'r adroddiad hwn.[1]

**4.** Hoffai'r Pwyllgor ddiolch i bawb a roddodd dystiolaeth i'r ymchwiliad hwn.

[1] Tîm Ymgysylltu â Dinasyddion Senedd Cymru: Llwybrau prentisiaeth: Canfyddiadau'r gwaith ymgysylltu, Chwefror 2025

# 2. Gwybodaeth am brentisiaethau

## Ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o brentisiaethau

### Gwybodaeth a ddarperir i ddysgwyr

**5.** Clywodd y Pwyllgor bryderon gan nifer fawr (ac amrywiaeth mawr) o randdeiliaid ynghylch y diffyg gwybodaeth a ddarperir i ddysgwyr am brentisiaethau. Soniodd llawer am bwysigrwydd cyngor gyrfaoedd annibynnol a diduedd. Yn ei dystiolaeth ysgrifenedig, dywedodd Medr wrth y Pwyllgor:

> *"Roedd pwysigrwydd cyngor gyrfaoedd annibynnol, diduedd o ansawdd uchel i ddysgwyr a chydweithio â chyflogwyr i gael gwybodaeth am opsiynau galwedigaethol yn themâu allweddol gan ymatebwyr yn ystod ymgynghoriad Medr ar ei Gynllun Strategol. Mae'n hollbwysig bod gan y rhai sy'n cynghori dysgwyr ddealltwriaeth eang o feysydd diwydiant presennol ac esblygol, ac o'r holl lwybrau addysg a all helpu dysgwr i gael mynediad i yrfa neu ddiwydiant o'i ddewis."* [2]

**6.** Dywedodd Grŵp Hyfforddi Educ8 fod yr wybodaeth sy'n cael ei chynnig yn eang i bobl ifanc gan asiantaethau cymorth, ysgolion ac yn llenyddiaeth Llywodraeth Cymru yn gallu bod yn ddryslyd ac yn aneglur. Dywed y gall hyn arwain at arweiniad camarweiniol, rhagfarnllyd, neu anghyflawn, gan adael darpar ddysgwyr heb fynediad at yr amrywiaeth cynhwysfawr o ddewisiadau sy'n angenrheidiol i wneud penderfyniadau gwybodus am eu dyfodol.[3]

**7.** Dywedodd Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe wrth y Pwyllgor fod angen gwneud mwy o waith o oedran iau mewn ysgolion ar lwybrau prentisiaeth a hefyd gyda rhieni / gofalwyr[4]. Cytunodd Partneriaeth Dysgu a Sgiliau Rhanbarthol De-orllewin Cymru, gan ddweud y dylai ysgolion fod yn cynyddu gwelededd a hyrwyddo prentisiaethau o gam cynharach er mwyn helpu myfyrwyr i gynllunio eu dewisiadau a dewis llwybrau prentisiaethau ôl-16.[5]

---

[2] Tystiolaeth Ysgrifenedig: Medr
[3] Tystiolaeth Ysgrifenedig: Grŵp Hyfforddi Educ8
[4] Tystiolaeth Ysgrifenedig: Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe
[5] Tystiolaeth Ysgrifenedig: Partneriaeth Dysgu a Sgiliau Rhanbarthol De-orllewin Cymru

## Ymwybyddiaeth o gyfleoedd prentisiaeth

**8.** Dywedodd rhanddeiliaid wrth y Pwyllgor hefyd nad yw pobl ifanc bob amser yn gwbl ymwybodol o brentisiaethau fel opsiwn sydd ar gael iddynt a bod angen negeseuon cliriach, mwy cyson.

**9.** Nododd ColegauCymru mai dim ond 2 y cant o'r bobl a adawodd yr ysgol ym Mlwyddyn 11 ledled Cymru o 2019 i 2023 a aeth ymlaen i wneud prentisiaeth fesul blwyddyn. Roedd yn teimlo bod hyn yn arwydd clir bod lefel y ddealltwriaeth ynghylch llwybrau prentisiaethau yn isel ymhlith dysgwyr cyn-16 oed. Nododd ColegauCymru fod y ffigur o 2 y cant wedi ei dynnu o arolygon cyrchfannau disgyblion a bod yr ystadegyn yn gysylltiedig â 'Hyfforddiant yn y Gwaith – Statws Cyflogedig', felly gallai'r ffigur gwirioneddol fod yn is. Mae'n bwysig bod Gyrfa Cymru yn sicrhau bod y data a gesglir yn ystod arolygon cyrchfan disgyblion yn cael ei ddiwygio i ofyn am wybodaeth am ddilyniant i 'brentisiaeth'[6].

**10.** Aeth ColegauCymru ymlaen i ddweud mai'r mater allweddol sy'n cael ei godi gan ddarparwyr prentisiaethau yw diffyg ymgysylltiad ysgolion, ac awgrymodd bod angen pendant i addysgu pawb sy'n ymwneud â chymuned yr ysgol - disgyblion, athrawon, rhieni ac ati – ynghylch y llwybrau at brentisiaeth.[7]

**11.** Roedd ymateb Hyfforddiant Cambrian i ymgynghoriad y Pwyllgor yn ategu hyn, gan ddweud bod diffyg ymwybyddiaeth ymhlith swyddogion gyrfaoedd mewn ysgolion[8]. Dywedodd Bwrdd Hyfforddi'r Diwydiant Adeiladu y bydd y cyfleoedd a ddarperir yn aml yn dibynnu ar wybodaeth athrawon/cynghorwyr gyrfaoedd unigol, a all yn ei dro greu amrywiad sylweddol rhwng lleoliadau[9].

**12.** Dywedodd Academi Sgiliau Cymru:

> *"in many cases, teachers and careers advisers lack up-to-date knowledge about apprenticeships, particularly in emerging sectors like green and digital".*[10]

**13.** Mae'r Pwyllgor wedi gwneud nifer o argymhellion o'r blaen ynghylch gwella'r ddarpariaeth sgiliau i gefnogi'r economi werdd yn ei adroddiad ar y pwnc. Mae Argymhelliad 13 yn nodi'n benodol: "Dylai Llywodraeth Cymru nodi sut y bydd yn gweithio gyda Gyrfa Cymru i sicrhau bod cyngor gyrfaoedd yn cael ei

[6] Tystiolaeth Ysgrifenedig: ColegauCymru
[7] Tystiolaeth Ysgrifenedig: ColegauCymru
[8] Tystiolaeth Ysgrifenedig: Hyfforddiant Cambrian
[9] Tystiolaeth Ysgrifenedig: CITB Cymru (Bwrdd Hyfforddi'r Diwydiant Adeiladu)
[10] Tystiolaeth Ysgrifenedig: Academi Sgiliau Cymru

integreiddio'n well ar hyd taith addysg disgybl i sicrhau bod pobl ifanc yn ymwybodol o'r cyfleoedd yng Nghymru a geir yn sgil trosglwyddo i economi wyrddach."[11] Derbyniodd Llywodraeth Cymru yr argymhelliad hwn "mewn egwyddor".

**14.** Cyfeiriodd Academi Sgiliau Cymru at ddylanwad rhieni hefyd, gan ychwanegu bod llawer o rieni heb ddealltwriaeth lawn o brentisiaethau a sut gallant alinio'n gadarnhaol â chyflogaeth a dilyniant gyrfa yn y dyfodol.[12]


**15.** Daeth mater dealltwriaeth rhieni i'r amlwg hefyd yng ngwaith ymgysylltu â dinasyddion y Pwyllgor. Dywedodd un prentis ifanc:

> *" Heblaw am geisio argyhoeddi fy rhieni, doedd dim rhwystrau o gwbl i mi oherwydd roedd popeth yn syml iawn....Dydi Mam a Dad ddim bob amser yn iawn!!"[13]*

**Dewis llwybrau galwedigaethol a dechrau prentisiaethau**

**16.** Er bod y Pwyllgor wedi clywed pryderon am ddiffyg ymwybyddiaeth o brentisiaethau, mae ystadegau'n dangos tuedd gynyddol o bobl ifanc yn dewis cofrestru mewn Colegau Addysg Bellach ar gyfer blwyddyn 12 yn hytrach nag aros yn yr ysgol.

**17.** Mae data yn dangos cynnydd cyson yng nghanran y dysgwyr blwyddyn 12 sy'n astudio mewn colegau Addysg Bellach o'i gymharu â chweched dosbarth mewn ysgol.




Ffynhonnell: Medr Dilyniant o Flwyddyn 11 i addysg drydyddol, Awst 2017 i Ionawr 2025

[11] Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig: Yr Economi Werdd, Mawrth 2025
[12] Tystiolaeth Ysgrifenedig: Academi Sgiliau Cymru
[13] Tîm Ymgysylltu â Dinasyddion Senedd Cymru: Llwybrau prentisiaeth: Canfyddiadau'r gwaith ymgysylltu, Chwefror 2025

**18.** Rydym hefyd yn nodi bod yr ystadegau diweddaraf a gyhoeddwyd gan Medr yn dangos bod 49 y cant o'r dysgwyr blwyddyn 11 a aeth i addysg drydyddol yn 2024/25 wedi dewis astudio lefelau UG, y gyfran isaf ers 2017/18.[14] Felly, am y tro cyntaf, mae data 2024/25 yn dangos bod mwyafrif y myfyrwyr yn symud ymlaen i ddarpariaeth nad yw'n lefel UG, gan gynnwys dysgu seiliedig ar waith.

**19.** Fodd bynnag, pan fyddwn yn cymharu'r rhai sy'n dechrau ar Brentisiaethau yn y blynyddoedd presennol a blaenorol yn Ch1 ar sail debyg, bu 12 y cant o ostyngiad mewn prentisiaethau a ddechreuwyd. Dechreuodd 7,185 o raglenni dysgu prentisiaethau yn Ch1 2024/25, o'i gymharu â 8,145 a ddechreuodd yn Ch1 2023/24.

**20.** Mae ystadegau diweddaraf o ddangosfwrdd prentisiaethau Medr, a gyhoeddwyd ar 4 Mehefin 2025, yn cymharu'r prentisiaethau a ddechreuwyd yn y chwarter presennol â'r sefyllfa gyfwerth y llynedd.




**21.** Dywedir yn natganiad ystadegol Medr:

> *Mae'r gostyngiad yn nifer y dechreuadau yn cyd-daro â gostyngiad mewn cyllid prentisiaethau yng nghyllideb 2024-25, yn dilyn colli cyfraniadau o Gronfa Gymdeithasol Ewrop. Dechreuwyd cyflwyno newidiadau i ddarpariaeth o fis Tachwedd 2023, wrth ddisgwyl am y*

[14] Ystadegau Medr: Dilyniant o Flwyddyn 11 i addysg drydyddol, Awst 2017 i Ionawr 2025, Chwefror 2025

> *gyllideb. Ymhlith y Prentisiaethau Uwch y gwelwyd y gostyngiadau mwyaf o gymharu â Ch1 y flwyddyn gynt.*[15]

**22.** Rydym hefyd yn nodi bod datganiad Medr yn cyfeirio at y gostyngiad yn nharged Llywodraeth Cymru:

> *Roedd y Rhaglen Lywodraethu yn cynnwys targed i greu 125,000 o brentisiaethau pob oed. Yn ystod cyfarfod Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig ar 26 Mehefin 2024, fe gytunodd Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi, Ynni a'r Gymraeg ar darged newydd o 100,000 o brentisiaethau pob oed i gynnal targed tymor blaenorol y Senedd o 100,000.*

**Perthynas waith rhwng ysgolion a darparwyr, a chyflogwyr**

**23.** Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth gan nifer o randdeiliaid fod angen cydweithio gwell rhwng ysgolion, darparwyr a chyflogwyr.

**24.** Mae hyn yn adlewyrchu canfyddiadau yn yr adroddiad Pontio i Fyd Gwaith.[16] Nododd farn colegau Addysg Bellach a chyflogwyr eu bod wedi profi "anawsterau o ran ymgysylltu â dysgwyr mewn lleoliadau ysgol, gydag ysgolion yn awyddus i sicrhau bod y dysgwyr mwy galluog yn academaidd yn symud ymlaen i'r chweched dosbarth" ond nad oedd ysgolion y bu'n siarad â nhw "yn cydnabod bod hyn yn wir". Roedd yr adroddiad yn tynnu sylw at ddeddfwriaeth 'mynediad i ddarparwyr' yn Lloegr, y cyfeirir ato'n gyffredin fel 'Cymal Baker', a'i bod wedi ei chryfhau yn Neddf Sgiliau ac Addysg Ôl-16 2022, gyda'r nod o sicrhau bod y Cymal yn gyfreithiol orfodadwy (cyfeirir ato yn fanylach isod). Yn ôl yr adroddiad:

> *Rhywbeth i Lywodraeth Cymru ei ystyried yw a allai mecanwaith o'r fath weithio yng Nghymru, ond mae'r union ffaith bod Llywodraeth y DU yn teimlo bod angen deddfwriaeth ychwanegol arni i wella effeithiolrwydd y Cymal yn awgrymu bod gwaith craffu gofalus yn ofynnol*[17]

**25.** Daw'r adroddiad i'r casgliad bod "awydd sylweddol ymhlith rhanddeiliaid am ddull mwy cydgysylltiedig, cydlynol o fewn y sector addysg uwchradd a

---

[15] Ystadegau Medr: Rhaglenni dysgu prentisiaeth a ddechreuwyd: Awst i Hydref 2024, Mai 2025
[16] Awdur yr adroddiad hwn oedd Hevin David. Fe'i comisiynwyd gan Lywodraeth Cymru yn annibynnol ar ei rôl fel aelod o'r pwyllgor hwn.
[17] Llywodraeth Cymru: Pontio i Fyd Gwaith – Adroddiad i Lywodraeth Cymru, Mehefin 2023

thrydyddol." Mae'n tynnu sylw at "enghraifft glir o arfer da" a ddaeth o Ysgol Uwchradd Llanidloes, sy'n amlinellu ei berthynas gydweithredol â Grŵp Colegau NPTC.

**Mynediad colegau at fyfyrwyr**

**26.** Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth bod sefydliadau addysg bellach yn aml yn cael trafferth cael mynediad at ddisgyblion ysgol ac mae hyn yn her o ran hyrwyddo'r llwybr galwedigaethol. Dywedodd ColegauCymru wrth y Pwyllgor fod y materion hyn wedi eu hamlinellu mewn dau adroddiad a gomisiynwyd gan Lywodraeth Cymru, sef yr Adroddiad Pontio i Fyd Gwaith gan Dr Hefin David AS ac Adolygiad Llywodraeth Cymru o Gymwysterau Galwedigaethol dan arweiniad Sharron Lusher MBE DL. Nodwyd ymhellach:

> *"Both reports recommend enhancing collaboration between schools and colleges and providing colleges with greater access to school pupils. This would ensure that learners can make well-informed decisions about their futures early in their educational journey. ColegauCymru believes that there has not been sufficient urgency in addressing these recommendations from both reports, and they should be prioritised by the Welsh Government and the pre- and post-16 education sectors. ColegauCymru believes that the marketing of the apprenticeship offer is key, and that there needs to be a sustained campaign aimed at school pupils, their parents, and school leavers."*[18]

**27.** Fel y cyfeirir ato uchod, roedd deddfwriaeth mynediad darparwyr yn Lloegr, y cyfeirir ato weithiau fel 'Cymal Baker', yn ymgais i fynd i'r afael â'r mater hwn yn Lloegr. Fe'i cyflwynwyd fel gwelliant i Ddeddf Addysg Dechnegol ac Addysg Bellach 2017, ac mae'n nodi bod yn rhaid i ysgolion ganiatáu i golegau a darparwyr hyfforddiant gael mynediad at bob myfyriwr ym Mlynyddoedd 8 i 13 i drafod llwybrau anacademaidd sydd ar gael iddynt. Y gobaith oedd y byddai hyn yn helpu i fynd i'r afael â heriau cynhyrchiant a phrinder sgiliau a brofwyd ar draws sawl sector o'r economi. Mae'r rheoliad hwn wedi bod mewn grym ers 2 Ionawr 2018.[19]

**28.** Canfu adroddiad gan y Sefydliad Ymchwil Polisi Cyhoeddus yn 2019 fod cydymffurfiaeth â'r Cymal wedi bod yn wael iawn ar y cam cynnar hwnnw.[20]

---

[18] Tystiolaeth Ysgrifenedig: ColegauCymru
[19] Asl.org.uk The Baker Clause: Best practice guidance for schools, providers and learners
[20] Ippr.org The Baker clause: One year on | IPPR, January 2019

Ceisiodd Llywodraeth y Deyrnas Unedig gryfhau'r ddeddfwriaeth yn dilyn hynny drwy Ddeddf Sgiliau ac Ôl-16 2022, a chanllawiau cysylltiedig ar yrfaoedd a mynediad i ddarparwyr addysg a hyfforddiant.[21] Rhaid i'r ysgol ddarparu isafswm o chwe darparwr. Cyflwynodd hefyd ofynion ar gyfer hyd a chynnwys y sesiynau hyn gyda'r nod o sicrhau ansawdd uchel.

**29.** Dywedodd Make UK wrth y Pwyllgor fod Cymal Baker yn rhan o'r dull yn Lloegr y dylid ei groesawu a'i fod wedi gwella'r ymgysylltiad hwnnw[22]. Dywedodd ei fod wedi gwella'r graddau mae'r sector addysg bellach a chyflogwyr yn gallu ymgysylltu ag ysgolion. Fodd bynnag, nid oedd yn meddwl ei fod yn gweithio'n berffaith, a dywedodd bod llawer o rwystredigaethau gan gyflogwyr ynghylch i ba raddau mae ysgolion yn fodlon clywed ganddynt. Roedd yn teimlo na fyddai dull deddfwriaethol tebyg yn niweidio unrhyw beth, ond nad dyma'r ateb ynddo'i hun chwaith.[23]

### Cyflwyno'r opsiwn prentisiaeth i bob dysgwr

**30.** Clywodd y Pwyllgor fod amharodrwydd i gyflwyno prentisiaethau fel opsiwn i bob dysgwr. Dywedodd Estyn bod yr wybodaeth sydd ar gael i ddisgyblion wrth ystyried eu dewisiadau yn aml yn rhy gyfyngedig, gyda phrentisiaethau yn aml yn cael eu hystyried yn israddol i ddewis Safon Uwch neu raddau prifysgol llawn amser.[24]

**31.** Tynnodd llawer o dystion sylw at y ffaith bod rhagfarn gymdeithasol yn erbyn hyrwyddo'r llwybr prentisiaeth o'i gymharu â'r llwybr chweched dosbarth - gradd. Dywedodd Partneriaeth Dysgu a Sgiliau De-orllewin Cymru fod prentisiaethau yn opsiwn 'ail ddewis' o'i gymharu â graddau prifysgol.[25] Cytunodd Sefydliad Peirianwyr Sifil Cymru, gan ddweud bod stigma yn dal i fod o ran prentisiaethau fel llwybr i'r rhai nad ydynt yn mynd i brifysgol.[26]

**32.** Dywedodd Hyfforddiant Cambrian wrth y Pwyllgor fod:

> *"a reluctance to present apprenticeships as a viable option for all pupils, regardless of academic attainment". It believes that "careers*

[21] Gov.uk Careers guidance and access for education and training providers
[22] Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 23 Ionawr 2025, Cofnod y Trafodion, Paragraff 365
[23] Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 23 Ionawr 2025, Cofnod y Trafodion, Paragraff 367
[24] Tystiolaeth Ysgrifenedig: Estyn
[25] Tystiolaeth Ysgrifenedig: Partneriaeth Dysgu a Sgiliau Rhanbarthol De-orllewin Cymru
[26] Tystiolaeth Ysgrifenedig: Sefydliad y Peirianwyr Sifil Cymru

> *services should start promoting apprenticeships at an earlier stage, presenting them as a parallel pathway to further and higher education"*[27]

**33.** Roedd gwaith ymgysylltu â dinasyddion y Pwyllgor yn cefnogi'r awgrym bod anhawster o ran cydraddoldeb parch. Er bod cyfranogwyr yn teimlo bod pethau wedi gwella yn ystod y blynyddoedd diwethaf, roeddent yn cytuno bod angen cyflwyno prentisiaethau i ddysgwyr ysgol ar yr un lefel â llwybrau gyrfa eraill.[28]

## Cyfleoedd profiad gwaith

**34.** Clywodd y Pwyllgor lawer o dystiolaeth ynghylch pwysigrwydd profiad gwaith ystyrlon i ddysgwyr a sut gall helpu pobl ifanc i benderfynu ar eu llwybrau gyrfa. Fodd bynnag, clywodd yr Aelodau hefyd fod y darlun yn dameidiog ledled Cymru. Roedd hyn yn cynnwys heriau ymarferol fel iechyd a diogelwch a gofynion y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd ar gyfer pobl dan 18 oed a'r posibilrwydd y byddai mynediad at brofiad gwaith yn cael ei gyfyngu gan bethau, gan gynnwys a allai rhieni drefnu lleoliad.

**35.** Dywedodd Hyfforddiant ACT fod profiad gwaith yn hanfodol i helpu pobl sy'n gadael yr ysgol i benderfynu ar lwybrau addysgol/gyrfa yn y dyfodol[29]. Dywedodd Partneriaeth Sgiliau Rhanbarthol Canolbarth Cymru wrth yr Aelodau ei bod yn gweld llai a llai o ysgolion yn cymryd rhan mewn rhaglen profiad gwaith, sy'n llwybr hynod bwysig i gyflogwyr recriwtio prentisiaid, a'i bod yn siomedig gweld hynny gan y gallai fod yn gyfle mor werthfawr.[30]

**36.** Mae mynediad at brofiad gwaith hefyd yn rhan o ymchwiliad cyfredol y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg i Lwybrau at addysg a hyfforddiant ôl-16.[31] Nodwyd yn ei ganfyddiadau ymgysylltu ym mis Mawrth 2025, o'r 295 o bobl ifanc a atebodd y cwestiwn yn yr arolwg fel rhan o'r gwaith ymgysylltu, dim ond 24% a ddywedodd eu bod wedi cael cyfle i ymgymryd â phrofiad gwaith.[32]

**37.** Esboniodd Gyrfa Cymru fod profiad dysgwyr o ran profiad gwaith yn dameidiog:

---

[27] Tystiolaeth Ysgrifenedig: Hyfforddiant Cambrian
[28] Tîm Ymgysylltu â Dinasyddion Senedd Cymru: Llwybrau prentisiaeth: Canfyddiadau'r gwaith ymgysylltu, Chwefror 2025
[29] Tystiolaeth Ysgrifenedig: Hyfforddiant ACT | Hyfforddiant ALS
[30] Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 12 Chwefror 2025, Cofnod y Trafodion, Paragraff 127
[31] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Llwybrau at addysg a hyfforddiant ôl-16
[32] Tîm Ymgysylltu â Dinasyddion Senedd Cymru: Llwybrau at addysg a hyfforddiant ôl-16: Canfyddiadau'r gwaith ymgysylltu, Mawrth 2025

> *The picture in terms of work experience is very fragmented across the whole of Wales. You are right—Careers Wales were responsible for a central placing service up until 2015, and then, due to budgetary cuts, this was taken out of our remit. So, it's been quite a while since we were involved in arranging this national work experience placement service. Since then the picture across Wales, as I said, is very different. Some schools, or some local authorities, are funding FE colleges to find placements for pupils in schools; as we heard in previous sessions, parents are given the responsibility to look for placements. So, it's a very uneven and inequitable field of play across the board, without considering young people with additional learning needs or disabilities, who have fewer opportunities and are not able to progress as well as their peers in terms of employment[33].*

**38.** Clywodd yr Aelodau alwadau am gymorth profiad gwaith wedi ei deilwra i ddysgwyr penodol, yn enwedig y rhai sydd mewn perygl o ddod yn NEET (nid mewn Cyflogaeth, Addysg na Hyfforddiant). Yn ei dystiolaeth ysgrifenedig, disgrifiodd Gyrfa Cymru raglen wedi ei thargedu mae'n ei chynnal, gan ddweud: "Mae'r rhaglen hon wedi'i thargedu at bobl ifanc sydd wedi'u nodi fel rhai a allai fod yn NEET oherwydd eu diffyg presenoldeb yn yr ysgol". Nodir yn ei dystiolaeth "Aeth 85.6% o'r bobl ifanc hyn ymlaen i gyrchfan cadarnhaol ar ddiwedd y rhaglen" ac "Aeth 25 o bobl ifanc ymlaen i ddechrau prentisiaeth" ym mlwyddyn academaidd 2023/24.[34]

**39.** Dywedodd Gyrfa Cymru wrth y Pwyllgor "Ar hyn o bryd, cynigir y rhaglen hon ar draws pum awdurdod lleol yng Nghymru. Byddem yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn ariannu'r cynnig hwn i bobl ifanc ar draws holl awdurdodau lleol Cymru."[35]

**40.** Cefnogodd Ffederasiwn Hyfforddiant Cenedlaethol Cymru yr alwad am brofiad gwaith ystyrlon i ategu dewisiadau llwybr dysgwyr a thynnodd sylw at rôl Gyrfaoedd a Phrofiadau Cysylltiedig â Gwaith (CWREs) yn y Cwricwlwm newydd i Gymru, gan ddweud:

[33] Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 23 Ionawr 2025, Cofnod y Trafodion, Paragraff 406
[34] Tystiolaeth Ysgrifenedig: Gyrfa Cymru
[35] Tystiolaeth Ysgrifenedig: Gyrfa Cymru

> *"meaningful work experience, that's critical in raising awareness of apprenticeship options. … But two things there for me are: let's not forget that in the new Curriculum for Wales we've got the CWREs, haven't we? We've got the career work-related experiences coming right through from primary, right through to secondary, which is fantastic. I hope we see a shift in that to having really meaningful work experience. But also … where is the tertiary model in the local authority … we have seen the partnerships with schools being much better, the engagement being much better. I can't endorse tertiary for the rest of Wales, but what I'm saying is that it's just evidence where it has worked."*[36]

**41.** Cydnabu Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi, Ynni a Chynllunio, bod problem o ran parch rhwng cyrsiau galwedigaethol ac academaidd, gan ddweud: Pan fydd rhywun yn cwrdd â'r prentisiaid hyn, yn gweld y gwaith anhygoel maent yn ei wneud a'r meysydd gwaith cyffrous maent ynddynt, a'r gyrfaoedd anhygoel sydd ganddynt o'u blaenau, yna nid yw'n gwneud synnwyr nad yw'r cydraddoldeb parch hwnnw'n bodoli. Dywedodd bod llawer o waith i'w wneud, gan hynny.[37]

**42.** Dywedodd un o swyddogion Ysgrifennydd y Cabinet wrth y Pwyllgor bod y Llywodraeth yn gweithio i wella cyfathrebu rhwng colegau ac ysgolion, gan ddweud:

> *"working very closely with Medr, who are primarily working on the ground with the different stakeholders—schools, colleges and everyone in tertiary education—as well as Careers Wales to provide the guidance and advice to young people. And we're aware that there is more work that needs to be done in this area, but we're working quite closely to improve that provision and to carry it forward and connect the dots, because we're aware that there are some gaps in the provision".*[38]

**43.** Nododd swyddog arall o Lywodraeth Cymru bod profiad gwaith bellach yn rhan o'r Cwricwlwm newydd i Gymru, a bod hynny'n amlwg yn ddatblygiad i'w

[36] Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 23 Ionawr 2025, Cofnod y Trafodion, Paragraff 244
[37] Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 12 Chwefror 2025, Cofnod y Trafodion, Paragraff 222
[38] Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 12 Chwefror 2025, Cofnod y Trafodion, Paragraff 189

groesawu hefyd. Ond, mae Gyrfa Cymru yn sefydliad sy'n cael ei redeg yn dda iawn ac wedi ei arwain yn dda iawn, ond ei fod yn ceisio gwneud gormod ar hyn o bryd o bosibl, yn aml oherwydd ceisiadau gan y Llywodraeth. Aeth ymlaen i ddweud y byddai Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda chydweithwyr yn Gyrfa Cymru i helpu i lunio ei chynnig i wneud yn siŵr ei fod yn cael ei flaenoriaethu'n briodol, ond hefyd yn gyflawnadwy — gan sicrhau'r cyflawniad hwnnw a chael yr effaith fwyaf posibl o ran hyn a phethau eraill.[39]

## Ein barn ni

Credwn fod gofyn rhoi pwyslais parhaus ar gydraddoldeb parch rhwng llwybrau academaidd a galwedigaethol. Yng nghyd-destun yr adroddiad hwn, mae hynny'n golygu bod yn rhaid hyrwyddo prentisiaethau fel rhai sydd â'r un gwerth â dewisiadau academaidd. Ochr yn ochr â hyn, mae deall y gostyngiad yn nifer y rhai sy'n dechrau prentisiaethau, yn enwedig mewn rhai pynciau sgiliau, yn hanfodol.

Clywsom lawer o dystiolaeth bod stigma neu gamddealltwriaeth yn parhau i fod ynghlwm wrth ddilyn cwrs addysg alwedigaethol yn hytrach na'r llwybr academaidd. Rydym hefyd yn pryderu am yr her sydd ynghlwm wrth sicrhau bod darpar fyfyrwyr, a'u rhieni, yn deall yn llawn beth sydd ar gael a'r hyn y gallent ei ennill o'r llwybr galwedigaethol. Er nad yw hwn yn fater newydd, mae'r Pwyllgor o'r farn bod yn rhaid mynd i'r afael â'r diffyg dealltwriaeth hwn a'r parch is mae cymdeithas yn aml yn ei roi i'r llwybr galwedigaethol er mwyn annog a chefnogi pobl sy'n dewis y llwybr addysgol sy'n addas ar eu cyfer.

Ochr yn ochr â chydraddoldeb parch rydym yn pryderu am yr wybodaeth mae darpar fyfyrwyr yn ei chael am y llwybrau addysgol y gallent eu dilyn. Mae'n amlwg bod angen gwneud mwy i gyflwyno gwybodaeth gywir a diduedd i fyfyrwyr am eu dewisiadau ynghylch dilyn llwybr academaidd neu alwedigaethol. Gellid cynorthwyo hyn drwy wella perthynas gydweithredol rhwng colegau ac ysgolion, gan gynnwys yr enghreifftiau arfer da a nodir yn yr adroddiad Pontio i Fyd Gwaith.[40]

Mae'n siomedig iawn gweld mai dim ond 24 y cant o'r 295 o bobl ifanc a ymatebodd i arolwg y Senedd a oedd wedi cael cyfle i ymgymryd â phrofiad gwaith tra'r oeddent yn yr ysgol. Er ein bod ni'n cydnabod bod heriau yn

[39] Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 12 Chwefror 2025, Cofnod y Trafodion, Paragraff 225-226
[40] Awdur yr adroddiad hwn oedd Hevin David. Fe'i comisiynwyd gan Lywodraeth Cymru yn annibynnol ar ei rôl fel aelod o'r pwyllgor hwn.

gysylltiedig â threfnu lleoliad profiad gwaith, credwn fod profiad gwaith o ansawdd uchel yn gyfle hanfodol i sicrhau bod myfyrwyr yn ymwybodol o'u dewisiadau. Fodd bynnag, bydd angen targedu, darparu adnoddau a rheoli unrhyw raglen profiad gwaith yn gywir, gan gynnwys mynd i'r afael â heriau ymarferol gofynion iechyd a diogelwch a diogelu.

**Casgliad 1.** Er bod rhai gwelliannau wedi bod yn ystod y blynyddoedd diwethaf, mae mater cydraddoldeb parch rhwng addysg academaidd ac addysg alwedigaethol yn parhau i fod yn amlwg yng Nghymru. Bydd mynd i'r afael â'r mater hwn yn llawn yn gofyn am waith sylweddol, nid yn unig gan Lywodraeth Cymru a phobl sy'n gweithio yn y sector addysg a sgiliau, ond hefyd gan y gymdeithas sifil yn ehangach. Mae angen mynd i'r afael â'r canfyddiad bod prentisiaethau yn ail ddewis. Fel rhan o hyn mae'n hanfodol y dylid cyflwyno opsiynau clir a diduedd i bob dysgwr.

**Casgliad 2.** Mae pwysigrwydd profiad gwaith ystyrlon ac wedi ei dargedu yn glir. Hoffai'r Pwyllgor weld rhaglen Gyrfa Cymru ar gyfer lleoliadau sy'n cael ei thargedu at unigolion penodol, fel y rhai sydd mewn perygl o beidio â bod mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant (NEET), yn cael ei hehangu.

**Casgliad 3.** Mae'r gostyngiad yn nifer y rhai sy'n cychwyn ar brentisiaethau yn bryder sydd angen esboniad pellach.

**Argymhelliad 1.** Mae'r angen am negeseuon cliriach a chodi ymwybyddiaeth o brentisiaethau mewn ysgolion yn glir. Rhaid i Lywodraeth Cymru weithio i sicrhau bod ysgolion, colegau a chyflogwyr yn ymgysylltu â'i gilydd i gyflwyno cyrsiau galwedigaethol fel dewis o safon. Fe allai Llywodraeth Cymru ddymuno archwilio'r sylfaen dystiolaeth ar gyfer cyflwyno deddfwriaeth mynediad i ddarparwyr fel rhan o'r ateb. Gallai hyn gynnwys archwilio gwersi a ddysgwyd yn sgil cyflwyno Cymal Baker, a gwelliannau dilynol a ddaeth i rym ar ddechrau'r flwyddyn hon, yn Lloegr. Dylai Llywodraeth Cymru ysgrifennu at y Pwyllgor hwn i esbonio ei chanfyddiadau a'i barn ar ddeddfwriaeth mynediad i darparwyr.

**Argymhelliad 2.** Dylai Llywodraeth Cymru roi esboniad manwl am y gostyngiad yn nifer y rhai sy'n dechrau ar brentisiaethau yn ôl y sector sgiliau a lefel prentisiaethau, a sut mae hyn yn effeithio ar y dewisiadau sydd ar gael ar ôl blwyddyn 11.

# 3. Cymorth a mynediad cyfartal ar gyfer dysgwyr

## Argaeledd cyrsiau a mynediad atynt

### Diffyg darpariaeth, yn enwedig mewn ardaloedd gwledig

**44.** Clywodd y Pwyllgor bryderon ynghylch prinder darpariaeth prentisiaethau mewn rhai ardaloedd yng Nghymru, yn enwedig ardaloedd gwledig, sy'n cyfyngu ar gyfleoedd i ddysgwyr. Clywodd aelodau hefyd fod argaeledd prentisiaethau yn aml yn ddarostyngedig i ddiwydiannau economi leol dysgwr sy'n golygu, yn dibynnu ar ble rydych chi'n byw, bod rhai sectorau ar gael yn fwy rhwydd nag eraill. Er bod hyn yn ffactor cynhenid i'r gwahanol economïau ledled Cymru, gall arwain at gyfleoedd anghyfartal i ddysgwyr oni bai eu bod yn fodlon ac yn gallu ymgymryd â theithio pellter hir neu symud.

**45.** Dywedodd Ffederasiwn Hyfforddiant Cenedlaethol Cymru wrth yr Aelodau

> *"there's a number of different barriers that happen across rural Wales—transport infrastructure, things like that. There needs to be, perhaps, some incentives for subsidised travel or remote learning options for both the potential apprentice and the employer. We can look at things like that as well. Incentive for employers—we've actually had, and it's still live at the moment, but the Government does have an incentive for employers to take on a disabled apprentice as well, so that they can have that additional enhancement and enrichment support."*[41]

**46.** Clywodd yr aelodau fod llai o amrywiaeth o brentisiaethau ar gael o ran pynciau ac ansawdd. Dywedodd Academi Sgiliau Cymru wrth y Pwyllgor bod yr amrywiaeth eang o brentisiaethau ar gael yn llai rhwydd mewn ardaloedd gwledig, lle gall fod llai o fusnesau neu ddiwydiannau sy'n gallu cynnig y cyfleoedd cyflogaeth hyn.[42]

[41] Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 23 Ionawr 2025, Cofnod y Trafodion, Paragraff 268
[42] Tystiolaeth Ysgrifenedig: Academi Sgiliau Cymru

**47.** Dywedodd Partneriaeth Sgiliau Rhanbarthol y De-orllewin wrth y Pwyllgor:

> *" opportunities are not evenly distributed across Wales, with rural areas facing greater challenges in accessing high-quality apprenticeship placements ".*[43]

**48.** Tynnodd Sefydliad Peirianwyr Sifil Cymru sylw at y ffaith bod y cyrsiau a gynigir ac ansawdd y ddarpariaeth yn amrywio yn dibynnu ar ble roeddech chi yn y wlad. Dywedodd y Sefydliad wrth y Pwyllgor:

> *"there is the issue of ensuring that standards are consistent in what is being taught. For example, is someone in North Wales receiving the same education/training as someone in the south of the country. Evidence suggests that this is not the case as there is disparity across the colleges delivering civil engineering programmes through the delivery of different learning modules. Not only does this have an effect on the level of skill and knowledge being acquired, but also has a knock on effect to those progressing to a university programme."*

**49.** Nododd ymhellach:

> *"it should be noted that there is also disparity of provision across Wales with a focus on the south-east of the country. So, there isn't an equal opportunity for individuals or employers and this should be addressed".*[44]

**50.** Tynnodd Sharron Lusher sylw at y mater hwn hefyd, gan ddweud wrth y Pwyllgor mai un argymhelliad pwysig iawn y mae angen gwneud rhywfaint o gynnydd arno yw sut gellid dod o hyd i ffyrdd mwy arloesol o gyflwyno'r cwricwlwm mewn rhannau o Gymru sydd o bosibl yn anoddach eu cyrraedd o safbwynt dysgwyr.[45]

**51.** Codwyd materion cysylltedd digidol ar gyfer myfyrwyr gwledig gyda'r Pwyllgor hefyd. Dywedodd Partneriaeth Sgiliau Prifddinas-Ranbarth Caerdydd:

[43] Tystiolaeth Ysgrifenedig: Partneriaeth Dysgu a Sgiliau Rhanbarthol De-orllewin Cymru
[44] Tystiolaeth Ysgrifenedig: Sefydliad Peirianwyr Sifil Cymru
[45] Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 23 Ionawr 2025, Cofnod y Trafodion, Paragraff 41

> *"the lack of reliable digital connectivity in some parts of Wales further increases challenges, limiting access to roles that offer hybrid or home-working options. It also creates barriers to studying remotely, making it more difficult to fully utilise the blended learning models offered within apprenticeship programmes."*[46]

**52.** Roedd y materion ynghylch darpariaeth mewn ardaloedd gwledig yn fater a gododd yng ngwaith ymgysylltu â dinasyddion y Pwyllgor. Mae'n fater sy'n effeithio ar benderfyniadau rhieni ynghylch ble i fyw, gydag un cyfranogwr yn dweud wrth y Pwyllgor:

> *" Rwy'n dod o ardal wledig o Gymru ond yn byw yn y ddinas ar hyn o bryd, gan fy mod eisiau i fy mhlant gael cyfleoedd gyrfa nad ydynt ar gael iddynt mewn ardaloedd gwledig."*[47]

### Diffyg hyfforddwyr ac aseswyr

**53.** Clywodd y Pwyllgor fod heriau o ran recriwtio hyfforddwyr ac aseswyr prentisiaethau. Er bod yr Aelodau wedi clywed eu bod yn hollol allweddol i lwyddiant rhaglenni, dywedodd tystion wrth y Pwyllgor bod cyflogau addysgwyr yn tueddu i fod yn is na chyflogau'r diwydiant, sy'n gallu ei gwneud hi'n anodd recriwtio a chadw staff ar gyfer y rolau hanfodol hyn.

**54.** Cododd tri o'r pedwar Partneriaeth Sgiliau Rhanbarthol bryderon yn eu tystiolaeth ysgrifenedig ynghylch recriwtio hyfforddwyr ac aseswyr.[48] Nododd Partneriaeth de-orllewin Cymru:

> *"Assessors and trainers are key to the success of any programme and this is an area of concern where we have insufficient numbers to support the growth that we need to achieve and we need to identify ways that we can utilise the expertise of industry in undertaking some of the assessment of students. One of the key barriers in the more*

[46] Tystiolaeth Ysgrifenedig: Partneriaeth Sgiliau Prifddinas-Ranbarth Caerdydd
[47] Tîm Ymgysylltu â Dinasyddion Senedd Cymru: Llwybrau prentisiaeth: Canfyddiadau'r gwaith ymgysylltu, Chwefror 2025
[48] Tystiolaeth Ysgrifenedig: Partneriaeth Sgiliau Prifddinas-Ranbarth Caerdydd; Tystiolaeth Ysgrifenedig: Partneriaeth Dysgu a Sgiliau Rhanbarthol De-orllewin Cymru; Tystiolaeth Ysgrifenedig: Partneriaeth Sgiliau Rhanbarthol Gogledd Cymru

> *rural areas of Wales is sufficient Assessors and trainers who speak Welsh and are able to deliver training."*[49]

**55.** Dywedodd Partneriaeth Sgiliau Rhanbarthol gogledd Cymru:

> *"In addition, training providers are facing challenges in recruiting appropriately skilled assessors in many areas including digital skills, plumbing and electrotechnical. Providers are experiencing intense competition for talent, as industry salaries are higher than those offered by providers. With limited funding, training providers are unable to compete with these salary offers, which makes it more difficult to attract and retain the skilled assessors needed to deliver apprenticeships."*[50]

## Rhwystrau o ran ymgymryd â phrentisiaethau

### Trafnidiaeth

**56.** Clywodd y Pwyllgor fod diffyg mynediad at drafnidiaeth gyhoeddus ddibynadwy yn broblem fawr, yn enwedig i ddysgwyr mewn cymunedau gwledig, ac o bosibl yn atal pobl rhag ymgymryd â phrentisiaethau. Mae hyn yn cynnwys cost teithio ac argaeledd darpariaeth.

**57.** Cododd ColegauCymru yr enghraifft o ddysgwr penodol sydd, o ran cyrraedd ei gyflogaeth, yn gorfod mynd ar ddau fws ac yn gorfod gweithio dwy awr o'r diwrnod hwnnw dim ond i dalu costau cyrraedd y gwaith a theithio oddi yno.[51] Aeth ymlaen i esbonio bod cwmnïau yn Sir Benfro na fyddant yn cyflogi prentis oni bai bod ganddynt drwydded yrru. Gan hynny, mae llawer o heriau.[52]

**58.** Tynnodd Partneriaeth Sgiliau Prifddinas-Ranbarth Caerdydd sylw at broblem gyda chysylltiadau trafnidiaeth, ond hefyd yn aml yr oriau anghymdeithasol mae'n rhaid i brentisiaid weithio, gan ddweud wrth y Pwyllgor:

> *"Within southeast Wales, barriers exist in relation to rurality and transport links, and these can limit access to apprenticeships for*

[49] Tystiolaeth Ysgrifenedig: Partneriaeth Dysgu a Sgiliau Rhanbarthol De-orllewin Cymru
[50] Tystiolaeth Ysgrifenedig: Partneriaeth Sgiliau Rhanbarthol Gogledd Cymru
[51] Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 23 Ionawr 2025, Cofnod y Trafodion, Paragraff 326
[52] Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 23 Ionawr 2025, Cofnod y Trafodion, Paragraff 330

> *some. In rural areas, for example those around the heads of the valleys, public transport can be unavailable or unreliable which poses challenges for potential apprentices. The antisocial nature of certain industries, for example, tourism and hospitality or health and social care further compounds this. This can also affect apprentices who need to travel to college on day release to progress their learning."*[53]

**59.** Dywedodd Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru wrth y Pwyllgor "y byddai rai grwpiau dan anfantais pan mae diffyg cludiant cyhoeddus gan olygu y bydd rhai cyfleoedd ond yn addas ar gyfer y sawl sy'n gyrru". Nodwyd y bydd "pobl ifanc 16 mlwydd oed yn gyda chludiant cyhoeddus cyfyngedig yn cael eu hatal rhag dewis llwybrau i brentisiaethau".[54]

**60.** Clywodd y Pwyllgor hefyd fod cost a dibynadwyedd trafnidiaeth gyhoeddus yn broblem. Dywedodd Hyfforddiant Educ8 bod y system bresennol o ad-dalu costau teithio yn hytrach na darparu cymorth ymlaen llaw yn ei gwneud hi'n anodd i rai dysgwyr fforddio cymudo i leoliadau prentisiaethau. Fe wnaeth hefyd dynnu sylw at y ffaith y gall diffyg opsiynau trafnidiaeth dibynadwy olygu bod ymgymryd â phrentisiaethau yn anymarferol heb gymorth ychwanegol.[55]

### Cyflogau prentisiaeth

**61.** Clywodd yr aelodau fod prentisiaid yn tueddu i gael llai o dâl na llawer o swyddi sgiliau isel lle nad oes angen hyfforddiant, ac y gall hyn fod yn rhwystr i'r rhai sy'n ymgeisio. Os yw rhywun ar eu blwyddyn gyntaf o astudio, dim ond yr isafswm cyflog prentis y mae ganddo hawl i'w gael, nid y cyflog sy'n gysylltiedig â'i oedran – a allai fod yn uwch. Mae hyn yn golygu, ar y cyfraddau cyfredol, fod gan unigolyn ym mlwyddyn gyntaf ei brentisiaeth hawl i isafswm cyfradd yr awr o £7.55, ond pe byddai'n gweithio mewn rôl nad yw'n seiliedig ar hyfforddiant byddai ganddo hawl i £10 yr awr pe bai'n 18 oed neu'n hŷn, neu £12.21 dros 21 oed.[56] Dylid nodi bod yr Isafswm Cyflog yn fater a gedwir yn ôl a'i fod yn cael ei bennu gan Lywodraeth y Deyrnas Unedig.

**62.** Yn ei dystiolaeth ysgrifenedig, dywedodd ColegauCymru fod costau byw (gan gynnwys y costau sy'n gysylltiedig â thrafnidiaeth, yn enwedig mewn ardaloedd gwledig) yn broblem, ac ychwanegodd fod hyn yn cael ei waethygu'n

[53] Tystiolaeth Ysgrifenedig: Partneriaeth Sgiliau Prifddinas-Ranbarth Caerdydd
[54] Tystiolaeth Ysgrifenedig: Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru
[55] Tystiolaeth Ysgrifenedig: Grŵp Hyfforddi Educ8
[56] Gov.uk Cyfraddau Cyflog Isafswm

arbennig gan yr isafswm cyflog sy'n uwch i weithwyr dros 18 a 21 oed, a nodir uchod. Aeth ymlaen i ddweud, yn ôl treial gan Lywodraeth Cymru:

> *"learners who earned less were less likely to successfully complete their apprenticeship, with the largest drop in success rates between 2018/19 and 2021/22 observed among those earning less than £15,000. Before the COVID-19 pandemic and cost of living crisis, success rates were similar across all earnings levels. The lower success rates for low-earning apprentices could not be fully explained by the type of apprenticeship or learner demographics, and those living in deprived neighbourhoods had even lower success rates compared to their counterparts in less deprived areas. This evidence suggests that the cost of living was a significant factor in the reduced completion rates for apprenticeships in 2021/22."*[57]

**63.** Roedd Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi, Cynllunio ac Ynni yn cydnabod bod cost, a chost trafnidiaeth yn enwedig, yn rhwystr i bobl ymgymryd â phrentisiaethau. Dywedodd wrth y Pwyllgor fod pethau y mae angen eu gwneud er mwyn archwilio beth yn rhagor y gellid ei wneud i helpu pobl ifanc gyda chost prentisiaethau, ond nad oedd ganddi atebion hawdd i hynny y diwrnod hwnnw.[58] Ychwanegodd un o'i swyddogion nad oedd yr isafswm cyflog prentisiaeth yn rhywbeth mae Llywodraeth Cymru ei hun yn ei osod, ond ei fod yn ymwybodol bod Gweinidogion wedi bod lobïo ers cryn amser am newidiadau yn yr isafswm cyflog i brentisiaid.[59]

## Ein barn ni

Er bod llawer o'r rhwystrau mae pobl yn eu hwynebu wrth ystyried dilyn prentisiaethau yn gysylltiedig â materion nad ydynt yn gyfan gwbl o fewn rheolaeth Llywodraeth Cymru, mae'n bwysig bod Llywodraeth Cymru yn defnyddio pob lifer sydd ar gael iddi i'w dileu neu eu lleihau. Gallai hyn gynnwys gweithio gyda phartneriaid, lobïo Llywodraeth y Deyrnas Unedig neu ddefnyddio unrhyw bŵer neu ddylanwad sydd ganddi i fynd i'r afael â newid. Er enghraifft, tra bod yr isafswm cyflog yn fater a gedwir yn ôl, gallai Llywodraeth

[57] Tystiolaeth Ysgrifenedig: ColegauCymru
[58] Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 12 Chwefror 2025, Cofnod y Trafodion, Paragraff 259
[59] Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 12 Chwefror 2025, Cofnod y Trafodion, Paragraff 260

Cymru ddefnyddio polisïau gwaith teg a dylanwad yn sector cyhoeddus Cymru i yrru cynnydd mewn cyflogau i brentisiaid yng Nghymru.

Rhaid i Lywodraeth Cymru hefyd edrych ar faterion strwythurol gyda'r system brentisiaethau i leihau rhwystrau. Er enghraifft, er y bydd y cynnig prentisiaethau bob amser yn cael ei deilwra i'r farchnad swyddi leol, dylai Llywodraeth Cymru geisio cofleidio gweithio a dysgu o bell i helpu i ehangu dewisiadau myfyrwyr. Yn yr un modd, rhaid i Lywodraeth Cymru archwilio cymorth i hyfforddwyr – fel prif gyflawnwyr y rhaglen brentisiaethau.

Mae argaeledd, dibynadwyedd a chost trafnidiaeth gyhoeddus wedi dod i'r amlwg yn gryf fel rhwystr i ddewis gwneud prentisiaeth. Dylai Llywodraeth Cymru, o bosibl drwy weithio â Trafnidiaeth Cymru, archwilio sut gall leihau'r rhwystr hwn.

Mae'r broblem â thrafnidiaeth yn arbennig o ddifrifol i ddysgwyr sy'n byw mewn lleoliadau gwledig. Rhaid i Lywodraeth Cymru edrych ar hyn fel blaenoriaeth – gan gynnwys archwilio meddwl creadigol am sut gall y myfyrwyr hynny gael mynediad at eu gwaith a'u haddysg.

Rydym yn nodi bod Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi cynllun peilot ar gyfer pobl ifanc 21 oed ac iau i dalu £1 yn unig am un tocyn bws yng Nghymru, a bydd gennym ddiddordeb mewn gweld yr effaith y gallai hyn ei chael ar fynediad dysgwyr at gyrsiau a gwaith.

**Casgliad 4.** Dylai Llywodraeth Cymru archwilio ffyrdd y gall wella mynediad at drafnidiaeth, gan gynnwys edrych ar gost trafnidiaeth, i bobl sy'n astudio ar gyfer prentisiaethau, yn enwedig y rhai o ardaloedd gwledig. Rydym yn croesawu cynllun peilot tocynnau bws £1 Llywodraeth Cymru a hoffem weld unrhyw ddadansoddiad o'i effaith ar fynediad pobl ifanc at brentisiaethau.

**Argymhelliad 3.** Mae heriau clir ac arwyddocaol yn wynebu darparwyr prentisiaethau o ran recriwtio a chadw hyfforddwyr ac aseswyr medrus. Dylai Llywodraeth Cymru archwilio'r rhwystrau a gweithio gyda cholegau i ystyried cymhellion a ffyrdd o fynd i'r afael â'r rhain.

**Argymhelliad 4.** Er nad yw'r isafswm cyflog ar gyfer prentisiaethau dan reolaeth Llywodraeth Cymru, dylai ystyried ffyrdd o gynyddu cyflog gwirioneddol ar gyfer prentisiaethau fel rhan o'i hagenda gwaith teg.

# 4. Llwybrau rhwng gwahanol lefelau o brentisiaethau

## Fframweithiau a llwybrau prentisiaeth

### Adolygiad Medr o fframweithiau prentisiaeth

**64.** Ar ôl ei sefydlu ym mis Awst 2024, cymerodd Medr gyfrifoldeb am bolisi gweithredol a chyflawni prentisiaethau. Mae hyn yn cynnwys llwybrau prentisiaethau a dyrannu cyllid. Yn y dystiolaeth ysgrifenedig a ddarparwyd i ni gan Medr, nodir mai ei fwriad yw:

> *"adolygu pob un o'r 23 o fframweithiau prentisiaeth dros y tair blynedd nesaf. Diben yr adolygiad yw gwneud yn siŵr bod fframweithiau'n gyfredol, eu bod yn ystyried y sgiliau sydd eu hangen ar gyflogwyr, a'u bod yn cynnwys ymdriniaeth gadarn â'r sgiliau sydd eu hangen er mwyn i unigolyn fod yn gymwys yn ei broffesiwn. Bydd yr adolygiadau'n sicrhau bod y fframweithiau'n ymateb i'r anghenion o ran sgiliau sy'n newid yn gyflym, gyda sgiliau gwyrdd a digidol yn themâu allweddol ym mhob adolygiad. Bydd pob adolygiad yn edrych yn ofalus ar ddilyniant rhwng lefelau prentisiaeth, gyda'r nod o alluogi dysgwyr i symud ymlaen yn fwy effeithiol ac yn ddi-dor heb ailadrodd yr hyn a ddysgwyd."*[60]

**65.** Fe wnaeth ColegauCymru rai awgrymiadau ynghylch sut dylai'r adolygiadau hyn weithredu, gan gynnwys y dylai pob adolygiad edrych ar ba gymwysterau ychwanegol y dylid eu darparu fel rhan o'r fframwaith prentisiaethau cyffredinol, fel bod prentisiaid yn cael cymwysterau y mae 'galw amdanynt'. Hoffai hefyd i bob adolygiad geisio barn cyflogwyr o ddifri, ynghylch a ydynt yn gweld gwerth a/neu ofyniad cymwysterau llythrennedd a rhifedd Sgiliau Hanfodol Cymru yn rhan o'r fframwaith.[61]

### Angen system hyblyg ac ymatebol ar gyfer prentisiaethau

**66.** Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth bod angen i'r system brentisiaethau fod yn fwy hyblyg ac ymatebol yn wyneb economi sy'n newid. Dywedodd Ffederasiwn Busnesau Bach Cymru wrth y Pwyllgor:

[60] Tystiolaeth Ysgrifenedig: Medr
[61] Tystiolaeth Ysgrifenedig: ColegauCymru

> *"the system remains reliant on Welsh Government deciding that SMEs' needs area a priority, and the situation continues with frameworks developed in a small number of areas in response to very large (often public sector) employers. The system needs to be more responsive to SMEs and must be proactive in generating qualifications that are relevant to the Welsh economy, if we are to see the apprenticeship approach mainstreamed."*[62]

**67.** Tynnodd grŵp hyfforddi Educ8 sylw at yr angen am ystwythder:

> *"Frameworks have got to evolve as the economy and technology evolve. If you look at AI, for example, we weren't talking about AI two or three years ago; now, that's all we talk about, isn't it? So, we have to find a way of getting the qualifications relevant and agile and quite fluid as well. So, it's important that the review takes place, but we have to find a way to continually review these frameworks, to make sure they're not just relevant today, but that they're relevant for the future as well."*[63]

**68.** Amlinellodd ColegauCymru faint o amser a gymerwyd i ddatblygu cwrs a'r materion yr oedd wedi eu hwynebu gyda thwristiaeth, teithio, lletygarwch ac arlwyo, a drafodwyd gyntaf ar ôl y pandemig, wrth i ni ddod allan o'r pandemig, sef yn 2021-22. Roedd yr ymgynghoriad cyntaf ym mis Mawrth 2023 a bydd y cymhwyster yn dod allan ac yn dod i rym ym mis Medi 2027, sy'n golygu y bydd y prentisiaid cyntaf yn cwblhau'r cymhwyster hwnnw yn 2029. Nodwyd ymhellach:

> *"the timescale is too long. Because, in 2029, you've probably got to start reviewing it again."*[64]

**69.** Dywedodd Medr ei fod yn ystyried creu rhaglen fwy hyblyg, gan ddweud:

> *"We're planning a big piece of consultation, and we hope that new programme is going to make us more flexible to enable us to,*

[62] Tystiolaeth Ysgrifenedig: Ffederasiwn Busnesau Bach Cymru
[63] Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 23 Ionawr 2025, Cofnod y Trafodion, Paragraff 259
[64] Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 23 Ionawr 2025, Cofnod y Trafodion, Paragraff 196

> *perhaps, respond more to those industry needs during the course of the life scale of that new programme"*[65]

**70.** Dywedodd hefyd wrth y Pwyllgor ei fod yn edrych ar fframweithiau y gellid bod angen eu hadolygu'n amlach oherwydd bod anghenion sgiliau yn newid, ond hefyd sut yr adlewyrchir hynny mewn fframwaith fel nad ydych chi'n cael eich clymu wrth rywbeth sy'n dyddio yn gyflym iawn - a allwn ni fframio hynny mewn ffordd sy'n golygu ein bod ni'n cael ychydig mwy o hyblygrwydd o fewn y fframweithiau hynny.[66]

## Lefelau prentisiaeth

### Mapio llwybrau gyrfa

**71.** Clywodd y Pwyllgor lawer o dystiolaeth ynglŷn â heriau wrth fapio llwybrau dilyniant clir drwy'r gwahanol lefelau prentisiaethau. Er bod llif amlwg ar gyfer rhai gyrfaoedd, clywodd y Pwyllgor fod gan ddysgwyr eraill lwybrau llawer llai clir. Crynhodd Partneriaeth Sgiliau Rhanbarthol Canolbarth Cymru hyn gan ddweud:

> *"A lack of clear progression routes from one apprenticeship level to the next is a common issue. Businesses struggle to find providers for certain apprenticeships, and there is often a lack of follow-on qualifications, forcing apprentices to switch providers. This inconsistency hinders the development of a seamless career pathway."*[67]

**72.** Dywedodd hefyd, er bod gan rai prentisiaethau gofal cymdeithasol, fel y llwybr o Weithiwr Cymorth Gofal Iechyd i nyrs gofrestredig, lwybrau clir, mae eraill yn wynebu heriau sylweddol. Er enghraifft, mae mapio llwybrau gyrfa ar gyfer gweithwyr gofal domestig i rolau gofal cymdeithasol yn anodd. Aeth ymlaen i ddweud bod rhai sectorau'n wynebu heriau unigryw gyda llwybrau prentisiaeth. Mae peirianneg a gweithgynhyrchu, er gwaethaf cyflogaeth ranbarthol gref, yn parhau i gael trafferth. Yn y maes adeiladu, mae prentisiaid yn aml yn gadael am

---

[65] Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 23 Ionawr 2025, Cofnod y Trafodion, Paragraff 26
[66] Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 23 Ionawr 2025, Cofnod y Trafodion, Paragraff 67
[67] Tystiolaeth Ysgrifenedig: Partneriaeth Sgiliau Rhanbarthol Canolbarth Cymru

swyddi â chyflog uwch ar ôl hyfforddiant cychwynnol, gan olygu nad yw cwmnïau yn cymryd prentisiaid newydd.[68]

**73.** Dywedodd Partneriaeth Sgiliau Prifddinas-Ranbarth Caerdydd, er bod fframweithiau prentisiaethau wedi cael eu rhesymoli, gall nifer y llwybrau sydd ar gael i unigolion a chyflogwyr fod yn ddryslyd ac yn aneglur. Gall sectorau fel deunyddiau uwch a gweithgynhyrchu fod ag amrywiaeth o is-sectorau a all ei gwneud hi'n anodd datblygu fframweithiau i weddu i bob rôl a lefel.[69]

**74.** Erfyniodd Sharron Lusher ar Lywodraeth Cymru i gyhoeddi canllawiau statudol ar gyfer 16 i 19 oed, ac mae eisoes wedi cyhoeddi canllawiau statudol ar 14 i 16 oed, a fydd yn helpu gyda'r broses bontio honno. Gan hynny, gyda'r ddau beth hynny, roedd yn gobeithio y bydd y broses bontio honno yn fwy agored ac y byddai dysgwyr yn cael mynediad at ddeall yr holl lwybrau sydd ar gael iddynt, ond dywedodd fod angen y rhan nesaf o'r jig-so, sef y canllawiau statudol 16 i 19 oed hefyd.[70]

**75.** Mae rhai rhanddeiliaid wedi codi'r mater ei bod hi'n anodd i ddysgwyr, rhieni / gofalwyr, a busnesau ddeall y llwybrau sydd ar gael drwy lefelau prentisiaethau o'i gymharu â llwybrau academaidd traddodiadol.

**76.** Clywodd y Pwyllgor fod symlrwydd cymharol y llwybr academaidd yn gwaethygu'r materion hyn. Dywedodd Colegau Cymru wrth yr Aelodau:

> *"if you're following an academic route, it's pretty clear, isn't it? You go to school, you do GCSEs and then you do your A-levels, and you might go on to do an undergraduate course, or you might go into employment. One of the barriers I think is parental understanding of the complicated pathways. Just to give you some examples, we've got a learner at Pembrokeshire College who started on Jobs Growth Wales, moved on to level 1 FE, level 2 FE, now is a work-based learning electrician. Another learner completed Jobs Growth Wales ICT level 1, level 2, level 3. They're now doing the NVQ part of the apprenticeship and are in employment. … So, the routes are complicated and we*

[68] Tystiolaeth Ysgrifenedig: Partneriaeth Sgiliau Rhanbarthol Canolbarth Cymru
[69] Tystiolaeth Ysgrifenedig: Partneriaeth Sgiliau Prifddinas-Ranbarth Caerdydd
[70] Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 23 Ionawr 2025, Cofnod y Trafodion, Paragraff 52

> *have to work out some way of making it clear—not necessarily to the individual, but to the parents, as somebody mentioned earlier."*[71]

## Prentisiaethau iau

**77.** Yn ei dystiolaeth ysgrifenedig, eglura Medr:

> *"Math o ddarpariaeth alwedigaethol i bobl ifanc 14-16 oed yw prentisiaethau iau. Fe'u darperir mewn coleg addysg bellach (pump ar hyn o bryd, mewn gwahanol ardaloedd awdurdod lleol). Nid prentisiaeth mohonynt, gan nad yw'r rhaglen yn gysylltiedig ag unrhyw fframwaith prentisiaeth. Eu nod yw cadw'r rhai sydd fwyaf mewn perygl o ymddieithrio o'r cwricwlwm prif ffrwd trwy gynnig ffordd wahanol o ddysgu. Amlygodd adolygiad Estyn o Brentisiaethau Iau ym mis Mai 2024 lwyddiant y rhaglen o ran cadw dysgwyr, gyda'r mwyafrif yn mynd i ddarpariaeth addysg bellach ôl-16 prif ffrwd."*[72]

**78.** Tynnodd Partneriaeth Sgiliau Rhanbarthol Gogledd Cymru sylw at y ffaith nad yw prentisiaethau iau ar gael yn ei hardal ar hyn o bryd. Fodd bynnag, roedd yn teimlo y gallai eu cyflwyno ddarparu cyfleoedd hanfodol i ymuno'n gynnar mewn diwydiannau fel adeiladu, peirianneg, a rhai meysydd gofal cymdeithasol, sydd i gyd yn wynebu prinder sgiliau. Aeth ymlaen i ddweud y byddai ehangu'r llwybrau hyn hefyd yn meithrin mwy o degwch o ran mynediad, yn enwedig mewn ardaloedd neu ymhlith grwpiau demograffig lle mae cyfleoedd prentisiaethau yn gyfyngedig ar hyn o bryd.[73]

**79.** Fodd bynnag, codwyd rhai cwestiynau ynghylch prentisiaethau iau. Cwestiynodd Estyn yr enw, gan ddatgan bod enw'r rhaglen prentisiaethau iau yn broblematig. Mae'n rhaglen cyn-brentisiaeth ac mae rhaglenni tebyg yn cael eu galw'n enwau gwahanol. Nid yw'n brentisiaeth, ac nid yw'n cael ei chynllunio o reidrwydd gyda dilyniant i brentisiaeth mewn golwg.[74]

**80.** Nododd Hyfforddiant Cambrian her o ran dilyniant o brentisiaethau iau, gan ddweud bod prentisiaethau iau a chymwysterau galwedigaethol a gyflwynir mewn lleoliadau cyn 16 oed yn aml yn arwain at ddysgwyr yn cyflawni canlyniadau lefel 2 ond yn eu gadael yn anghymwys ar gyfer prentisiaethau

[71] Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 23 Ionawr 2025, Cofnod y Trafodion, Paragraff 331
[72] Tystiolaeth Ysgrifenedig: Medr
[73] Tystiolaeth Ysgrifenedig: Partneriaeth Sgiliau Rhanbarthol Gogledd Cymru
[74] Tystiolaeth Ysgrifenedig: Estyn

sylfaen oherwydd eu hoedran a'u diffyg profiad, a hefyd diffyg dyfnder profiad gwaith sy'n ofynnol ar gyfer mynediad uniongyrchol at rolau lefel 3.[75] Mae hyn yn broblem neilltuol gan fod Medr yn dweud mai bwriad prentisiaethau iau oedd gwneud dysgwyr yn gyflogadwy neu'n barod i symud ymlaen i gwrs galwedigaethol lefel uwch neu brentisiaeth yn 16 oed.[76]

**Gradd-brentisiaethau**

**81.** Esbonnir ar wefan Medr: "Mae prentisiaethau gradd yng Nghymru yn cyfuno dysgu yn y gwaith drwy brentisiaeth draddodiadol â chymhwyster addysg uwch. Gallant hefyd gynnwys cymwysterau proffesiynol sy'n berthnasol i ddiwydiant."

**82.** Eir ymlaen i nodi "Mae cymwysterau prentisiaeth gradd sydd ar gael yng Nghymru wedi'u cyfyngu i'r meysydd pwnc â blaenoriaeth:

- Digidol
- Peirianneg
- Gweithgynhyrchu uwch
- Adeiladu[77]

**83.** Yn ei dystiolaeth ysgrifenedig mae Medr yn esbonio "Er mwyn sicrhau gwerth o arian cyhoeddus, mae prentisiaethau gradd yn cael eu cynnig ar hyn o bryd mewn sectorau sydd â photensial am swyddi gwerth uchel a thwf economaidd cryf." Mae'n ychwanegu y bydd ei adolygiad fframwaith "yn gyfle i ystyried ac amlygu llwybrau eraill i sgiliau lefel uwch".[78]

**84.** Nododd Busnes Cymru fod dwy gost yn gysylltiedig â gradd-brentisiaethau – cyflogau'r prentisiaid a'r ffioedd dysgu. Mae'n esbonio bod y busnes yn talu'r cyflogau a bod Llywodraeth Cymru yn talu am y dysgu.[79]

**85.** Cefnogodd llawer o sefydliadau addysg uwch hyn hefyd. Dywedodd Prifysgolion Cymru:

[75] Tystiolaeth Ysgrifenedig: Hyfforddiant Cambrian
[76] Tystiolaeth Ysgrifenedig: Medr
[77] Medr. Cymru: Prentisiaethau
[78] Tystiolaeth Ysgrifenedig: Medr
[79] Busnescymru.llyw.cymru: Prentisiaethau gradd

> *" A significant expansion of degree apprenticeships beyond the current frameworks is required if degree apprenticeships are to play a role in meeting the future high skill needs of Wales."*[80]

**86.** Fe wnaeth hefyd dynnu sylw at risg bosibl gan fod amrywiaeth ehangach o radd-brentisiaethau ar gael i'w hastudio yn Lloegr, gan ddweud bod Cymru mewn perygl o golli myfyrwyr da i raglenni prentisiaeth gradd ar draws y ffin yn Lloegr os na fydd ehangu yn digwydd. Tynnodd nifer o randdeiliaid eraill sylw at y risg hon hefyd.[81]

**87.** Awgrymodd Gyrfa Cymru yn benodol "Mae angen mawr i ehangu'r cynnig gradd-brentisiaethau presennol i gynnwys meysydd eraill o angen yn y rhanbarth megis iechyd a gofal cymdeithasol, adeiladu, carbon isel / ynni gwyrdd, ac arweinyddiaeth a rheolaeth."[82]

**88.** Dywedodd y Brifysgol Agored, os yw fframweithiau yn cael eu cyfyngu i nifer mor fach yn y tymor canolig a hir, bydd hynny'n sicr yn dechrau achosi problemau ar gyfer dilyniant dysgu. Yn y system bresennol, nid oes gan lawer iawn o brentisiaethau lwybr clir i ddysgu galwedigaethol uwch. Fe wnaeth y Brifysgol Agored hefyd ddweud:

> *"It is expected that Wales will need 400,000 more graduates by 2035 and that, by the same year, 95% of new jobs in Wales will be graduate level 2. In this context, it should be clear that improving pathways between apprenticeship levels, up to degree level, across a broader range of areas is necessary."*[83]

**89.** Fodd bynnag, rhybuddiodd Estyn bod potensial ar gyfer cystadleuaeth neu ddyblygu rhwng rhaglenni gradd, gradd-brentisiaethau a rhaglenni prentisiaethau uchel sy'n arwain at ddiffyg llwybrau prentisiaethau cydlynol. Awgrymodd mai un ateb posibl fyddai i brentisiaethau ar bob lefel gael eu darparu drwy un rhwydwaith o ddarparwyr dysgu seiliedig ar waith, gan sicrhau manyleb gyson i ddarparwyr ar bob lefel o brentisiaeth.[84]

[80] Tystiolaeth Ysgrifenedig: Prifysgolion Cymru
[81] Tystiolaeth Ysgrifenedig: Prifysgolion Cymru
[82] Tystiolaeth Ysgrifenedig: Gyrfa Cymru
[83] Tystiolaeth Ysgrifenedig: Y Brifysgol Agored yng Nghymru
[84] Tystiolaeth Ysgrifenedig: Estyn

**90.** Tynnodd Prifysgol Metropolitan Caerdydd sylw hefyd at broblemau gyda'r model cyllido, gan ddweud bod cyllid wedi ei neilltuo gan Lywodraeth Cymru, gyda'r dyraniad olaf gan Gyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru[85] tua £10 miliwn. Mae'r galw am y cyrsiau hyn yn fwy na'r cyflenwad, gyda nifer y lleoedd sydd eu hangen wedi rhagori ar y lefel y gellir ei chyllido'n sylweddol. Eglurodd fod hyn wedi achosi llawer o broblemau, gan gynnwys y Brifysgol yn gorfod gwrthod ymgeiswyr, sefydliadau partner yn gorfod ailgynllunio cynllunio'r gweithlu a llwybrau newydd (sef rheilffyrdd), gan roi straen ychwanegol ar y gyllideb hon.

**91.** Fe wnaeth y Brifysgol grynhoi'r materion drwy ddweud:

> *"the ring-fenced budget for degree apprenticeships is too small to meet the demand and the potential supply in Wales and/or ensure the courses are funded at the same level as other undergraduate courses (£9,535 per head) without cutting places. A reconsideration of the funding model and pathway development might be required."*[86]

**92.** Dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi, Ynni a Chynllunio wrth y Pwyllgor fod hyblygrwydd yn y system brentisiaethau yn hanfodol. Dywedodd bod y gallu i fod yn ystwyth yn bwysig iawn, ac mae rhai enghreifftiau da iawn o golegau yn gallu addasu eu cynnig yn gyflym iawn er mwyn ymateb i anghenion busnes.[87]

**93.** Eglurodd ei swyddog, cyn i'r cyfrifoldeb gael ei drosglwyddo i Medr, fod gan Lywodraeth Cymru raglen adolygiad blynyddol ar gyfer prentisiaethau bob amser, gan ei bod hi'n bwysig iawn gwneud yn siŵr bod y prentisiaethau'n parhau i fod yn berthnasol i gyflogwyr, yn ddeniadol i bobl ymgymryd â nhw. Aeth ymlaen i esbonio bod yr angen hwn am hyblygrwydd hefyd yn:

> *"one of the reasons that we have other funding streams for supporting businesses as well, because there's such a set of regulations around apprenticeships, developing frameworks does take time. So, that's why we have things like the flexible skills programme as well, which means that we can be much more agile in responding to shorter*

[85] Ers hynny, mae'r cyfrifoldeb am ddyrannu cyllid Llywodraeth Cymru ar gyfer gradd-brentisiaethau wedi trosglwyddo o Gyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru i Medr.
[86] Tystiolaeth Ysgrifenedig: Prifysgol Metropolitan Caerdydd
[87] Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 12 Chwefror 2025, Cofnod y Trafodion, Paragraff 209

> *term needs that an apprenticeship can't always deliver in the timescales that we might need."*[88]

**94.** Nodwyd yn nhystiolaeth ysgrifenedig Llywodraeth Cymru "Mae Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda Medr i sicrhau llwybrau clir a dilyniant rhwng lefelau prentisiaethau a chymwysterau. Ein nod yw creu sector mwy cydgysylltiedig a chynhwysol, a llwybrau cliriach, mwy hyblyg er mwyn i ddysgwyr gael dysgu ar y lefel ac yn y lleoliad sydd orau iddynt."[89]

**95.** O ran gradd-brentisiaethau, eglurodd swyddog o Lywodraeth Cymru fod heriau ynghlwm wrth y syniad o ehangu, a oedd yn ymwneud yn bennaf â chost. Serch hynny, mae'n rhan o'r hyn y bydd Medr a Llywodraeth Cymru yn edrych arno o ran strategaeth sgiliau yn y dyfodol, a'r blaenoriaethau y bydd y Llywodraeth yn eu rhoi i Medr ar lefel strategol genedlaethol.[90]

## Ein barn ni

Rydym yn croesawu adolygiad Medr o fframweithiau prentisiaeth. Rydym yn cefnogi galwadau i sicrhau bod barn cyflogwyr yn ganolog i'r adolygiad hwnnw fel bod prentisiaethau yn cyflawni'r hyn sydd ei angen ar yr economi. Rhaid i Medr ymgynghori'n eang ar draws y sector eang o gyflogwyr yn ogystal â myfyrwyr a'r holl randdeiliaid pwysig eraill sydd gan ein system sgiliau.

Mae llwybr clir i bobl sy'n dechrau neu sy'n dymuno symud ymlaen drwy lefelau cymwysterau yn bwysig i wneud prentisiaethau yn ddeniadol ond hefyd i annog astudiaethau pellach. Mae hwn yn faes y mae'n rhaid i Medr a Llywodraeth Cymru weithio arno. Yn ddelfrydol, hoffem weld llwybr clir y gall dysgwyr ei ddilyn a'i ddeall yn hawdd. Byddai'r llwybr hwn hefyd yn esbonio sut gallai pobl ar y llwybr galwedigaethol gymryd symudiadau 'i'r ochr' pe baent yn dymuno newid gyrfaoedd - er enghraifft, i fanteisio ar dechnoleg sy'n dod i'r amlwg.

Rydym yn cefnogi amcanion y rhaglen Prentisiaethau Iau ac yn teimlo y gallai Llywodraeth Cymru fod eisiau ystyried a ellir ei hehangu i leoliadau eraill. Roedd gennym ddiddordeb hefyd mewn clywed pryderon y gallai enw'r rhaglen fod yn gamarweiniol. Gellid ystyried enw mwy cywir i osgoi dryswch. Nodwn fod y

[88] Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 12 Chwefror 2025, Cofnod y Trafodion, Paragraff 210
[89] Tystiolaeth Ysgrifenedig: Llywodraeth Cymru
[90] Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 12 Chwefror 2025, Cofnod y Trafodion, Paragraff 305

Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg wedi cymryd tystiolaeth werthfawr ar Brentisiaethau Iau fel rhan o'i ymchwiliad Llwybrau Ôl-16.

Mae'n amlwg bod gradd-brentisiaethau yn boblogaidd gyda dysgwyr, darparwyr a busnesau. Fodd bynnag, gan eu bod wedi gor-danysgrifio rydym yn cwestiynu a yw'r model neu'r cwantwm cyllid presennol yn addas i'r diben. Gan hynny, dylai Llywodraeth Cymru ystyried sut gallant ehangu'r ddarpariaeth o radd-brentisiaethau i ateb y galw ond hefyd i sicrhau bod y gwerth gorau am arian yn cael ei fuddsoddi.

**Casgliad 5.** Yn aml mae'n her sylweddol i ddysgwyr allu mapio llwybr gyrfa drwy'r lefelau prentisiaethau, yn enwedig o'i gymharu â llwybr academaidd cymwysterau. Mae rolau i Medr, Partneriaethau Sgiliau Rhanbarthol a Llywodraeth Cymru eu chwarae i sicrhau bod y ddarpariaeth a gynigir a'r llwybr drwyddo yn ddealladwy i ddarpar-brentisiaid, y rhai sydd eisoes wedi cychwyn ar gyrsiau, darparwyr a chyflogwyr.

**Casgliad 6.** Nodwn fod y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg wedi casglu tystiolaeth ar Brentisiaethau Iau fel rhan o'i ymchwiliad Llwybrau Ôl-16.

**Casgliad 7.** Roedd gan y Pwyllgor ddiddordeb mewn clywed safbwyntiau rhanddeiliaid ynghylch prentisiaethau iau. Rhagwelir y bydd y pwnc hwn yn cael sylw yn y gwaith sy'n cael ei wneud gan y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg ar Lwybrau at Addysg Ôl-16, ac edrychwn ymlaen at ddarllen y canfyddiadau.

**Casgliad 8.** Mae'r Pwyllgor yn croesawu adolygiad Medr o brentisiaethau. Fel rhan o'r adolygiad hwn, dylai Medr archwilio sut gall y system brentisiaethau gyffredinol fod yn fwy hyblyg ac ymatebol i anghenion cyflogwyr a'r economi, yn enwedig y newid i sero net a'r dirwedd dechnolegol sy'n newid yn gyflym.

**Argymhelliad 5.** Dylai Llywodraeth Cymru archwilio atebion cyllidol i ehangu'r ddarpariaeth gradd-brentisiaethau, ond rhaid iddi hefyd sicrhau gwerth am arian fel rhan o'r gwaith hwn.

# 5. Cyflogwyr sy'n ymgysylltu â phrentisiaethau

## Heriau sy'n wynebu cyflogwyr

**96.** Mae busnesau yn hollol hanfodol i lwyddiant rhaglenni prentisiaethau – maent yn cynnig y gyflogaeth a'r hyfforddiant yn y swydd sy'n angenrheidiol ar gyfer llwyddiant y rhaglenni. O ystyried y dirwedd sy'n newid ar lefel y Deyrnas Unedig, nid yw ein hymchwiliad wedi canolbwyntio'n fanwl ar faterion ehangach cyllido prentisiaethau.

**97.** Dylai cynnal prentisiaethau hefyd fod yn fuddiol i fusnesau, gan eu bod yn cynnig llwybr da o hyfforddiant a dilyniant i staff. Fodd bynnag, clywodd y Pwyllgor fod busnesau'n wynebu heriau wrth ymgysylltu â'r rhaglen brentisiaethau, yn enwedig cyflogwyr llai. Mae'n bosibl bod diffyg ymwybyddiaeth o raglenni ymhlith rhai busnesau.

**98.** Dywedodd Educ8 wrth y Pwyllgor:

> *"Employer engagement in apprenticeships is lower than expected for several reasons, ranging from administrative barriers to a lack of awareness about the benefits. Many businesses, particularly small and medium enterprises (SMEs), struggle to see apprenticeships as a viable workforce development strategy due to financial, structural, and practical challenges."*[91]

**99.** Aeth ymlaen i ddweud nad oedd rhai cyflogwyr yn ymwybodol o'r budd llawn y gall prentisiaethau eu cynnig. Yn aml, roedd camsyniad bod prentisiaethau ar gyfer rolau lefel mynediad yn unig. Fe wnaethant hefyd dynnu sylw at bryderon sydd gan rai gweithwyr ynghylch enillion ar fuddsoddiad, gan gynnwys ofnau y bydd cynhyrchiant gweithwyr yn gostwng neu y gallent adael ar ôl cwblhau eu hyfforddiant.[92]

**100.** Tynnodd llawer o randdeiliaid sylw at ddiffyg dealltwriaeth o fanteision cyflogi prentisiaid. Yn ei dystiolaeth ysgrifenedig, dywedodd Hyfforddiant Cambrian bod prentisiaethau yn arf hanfodol ar gyfer denu a chadw staff i gynorthwyo busnesau drwy'r cyfnod anodd hwn, ac mae'r dosraniadau a gynigir i gyflogwyr, gan eu heithrio rhag cyfraniadau Yswiriant Gwladol, yn rhyddhad ariannol gwerthfawr. Fodd bynnag, aeth ymlaen i ddweud bod busnesau bach a

[91] Tystiolaeth Ysgrifenedig: Grŵp Hyfforddi Educ8
[92] Tystiolaeth Ysgrifenedig: Grŵp Hyfforddi Educ8

chanolig yn aml yn dod ar draws rhwystrau fel capasiti gweinyddol cyfyngedig, cyfyngiadau ariannol, a diffyg ymwybyddiaeth o'r manteision a'r prosesau sy'n gysylltiedig â chyflogi prentisiaid, a byddai cymorth wedi ei dargedu i helpu busnesau bach a chanolig hyrwyddo ac ymgysylltu â rhaglenni prentisiaeth yn fuddiol iawn o ran goresgyn y rhwystrau hyn a sicrhau bod busnesau yn gallu parhau i ddatblygu eu gweithlu yn effeithiol.[93]

**101.** Esboniodd FSB Cymru fod gan fusnesau bach a chanolig her benodol o ran ymgysylltu â'r system sgiliau. Dywedodd wrth y Pwyllgor:

> *"Pressures on SMEs are that they are time poor, can lack HR support to deal with myriad issues they need in their jobs, and are often left to navigate complex skills system alone. Success in bringing skills system to them will be key to the 250,000 small businesses success in Wales, and to learners' opportunities, as well as ensuring that our learning priorities are the right ones for our local economies and communities. Support for employers to build their skills for themselves and within their businesses is also important."*[94]

**102.** Amlinellodd Educ8 hefyd faterion ynghylch ymgysylltiad cyflogwyr â darparwyr hyfforddiant. Dywedodd nad yw rhai cyflogwyr yn cyfathrebu'n dda â darparwyr ac nad ydynt yn rhyddhau staff ar gyfer hyfforddiant. Roedd yn teimlo y gall diffyg cydweithredu rhwng darparwyr hyfforddiant a busnesau arwain at brentisiaethau nad ydynt yn mynd i'r afael â bylchau sgiliau yn y diwydiant yn llawn ac y gall busnesau deimlo bod prentisiaethau yn rhy anhyblyg ac nad ydynt wedi eu teilwra i heriau penodol eu gweithlu.[95]

## Cymorth i gyflogwyr ymgysylltu â'r rhaglen prentisiaethau

**103.** Clywodd y Pwyllgor alwadau i gynyddu cefnogaeth i gyflogwyr ymgysylltu â rhaglenni prentisiaethau. Roedd hyn yn cynnwys gwell gwybodaeth a chanllawiau, a chymhellion ariannol hefyd o bosibl.

**104.** Croesawodd yr FSB greu Medr fel un pwynt cyswllt ar sgiliau ar gyfer busnes, ond dywedodd ei bod hi'n bwysig bod y blaenoriaethau strategol a nodwyd yn cael eu gweithredu a'u hanelu at fusnesau bach a bod Medr yn cynnwys cynllun

[93] Tystiolaeth Ysgrifenedig: Hyfforddiant Cambrian
[94] Tystiolaeth Ysgrifenedig: Ffederasiwn Busnesau Bach Cymru
[95] Tystiolaeth Ysgrifenedig: Grŵp Hyfforddi Educ8

busnesau bach Medr sy'n cael ei lunio yn unol ag anghenion busnesau bach a chanolig.[96]

**105.** Nododd Ffederasiwn Hyfforddiant Cenedlaethol Cymru:

> *"Micro and small businesses always struggle with the cost of employing an apprentice and the risk that once the apprentice is qualified they may leave and move to a larger employer – the ESP Apprenticeship wage subsidy WG programme for SMEs was a great incentive to support those smaller organisations to take a risk on employing an apprentice".*

**106.** Roedd hefyd yn awgrymu caniatáu i'r darparwr hyfforddiant fod yn gyflogwr, ac felly y gallai fod yn rhwyd ddiogelwch i ddysgwyr. Tynnodd sylw at gynllun sy'n galluogi hyn a oedd yn boblogaidd yn Lloegr.[97]

**107.** Dywedodd ColegauCymru wrth y Pwyllgor fod barn gymysg ymhlith darparwyr ynghylch cynllun cymhellion cyflogwyr, gyda'r rhan fwyaf yn nodi y dylid cyfeirio unrhyw gyllid sydd ar gael tuag at ddiwallu'r galw presennol gan gyflogwyr. Nodwyd ymhellach:

> *"all providers recognise that employers are finding it increasingly difficult to justify the recruitment of an apprentice(s) given the increases in employment and business costs. Should funding be made available for an employer incentive scheme, from outside of the existing apprenticeships budget, then any approach to an employer incentive must be co-produced with the apprenticeship provider network, as previous iterations have been overly bureaucratic for both employer and provider."*[98]

**108.** Yn ei thystiolaeth ysgrifenedig, dywedodd Llywodraeth Cymru:

> *Mae Gweinidogion a swyddogion hefyd yn ymgysylltu'n rheolaidd ag ystod eang iawn o gyflogwyr a chyrff sy'n cynrychioli cyflogwyr ar faterion sy'n ymwneud â sgiliau, gan gynnwys prentisiaethau.*

[96] Tystiolaeth Ysgrifenedig: Ffederasiwn Busnesau Bach Cymru
[97] Tystiolaeth Ysgrifenedig: Ffederasiwn Hyfforddiant Cenedlaethol Cymru
[98] Tystiolaeth Ysgrifenedig: ColegauCymru

> *Rydym ar ddeall bod Medr yn gweithio gyda chyflogwyr i ddeall yn well y rhwystrau y maent yn eu hwynebu, yn enwedig busnesau bach a chanolig, wrth gyflogi prentisiaid a sut i ehangu sylfaen y cyflogwyr i'r dyfodol.*[99]

## Ein barn ni

Mae sicrhau ymgysylltiad cyflogwyr o bob maint yn hanfodol ar gyfer llwyddiant rhaglen brentisiaethau Cymru. Rhaid i Lywodraeth Cymru a Medr ystyried eu hanghenion i'r un graddau ag y maent yn ystyried dysgwyr wrth ddatblygu polisi a rhaglenni prentisiaethau. Gan fod y mwyafrif helaeth o fusnesau yng Nghymru yn fusnesau bach a chanolig, rhaid i unrhyw ddatblygiad yn y rhaglenni prentisiaethau eu hystyried neu wynebu'r risg y byddant yn methu. Er na wnaethom ddod i farn ar gymhellion ychwanegol i gyflogwyr, mae hyn yn rhywbeth y gallai Llywodraeth Cymru ei ystyried. Fodd bynnag, hoffai'r Pwyllgor gofnodi ei gred gryf bod prentisiaid ynddynt eu hunain yn darparu amrywiaeth eang o fuddion i gwmnïau. Dylid hyrwyddo'r gwerth y gall prentisiaid ei gyfrannu at yr economi ac i gyflogwyr unigol fel cymhelliant ynddo'i hun.

**Casgliad 9.** Mae cyflogwyr yn hanfodol i raglenni prentisiaeth llwyddiannus. Fodd bynnag, maent yn wynebu nifer o rwystrau o ran ymgysylltu â'r system a chymryd prentis – er enghraifft, diffyg ymwybyddiaeth o fanteision cyflogi prentis, trafferth darparu llwybrau dilyniant i brentisiaid, ac anawsterau llywio'r system. Mae'r heriau hyn yn fwy i fusnesau bach a chanolig ac yn fwy cyffredin mewn rhai sectorau nag eraill.

**Argymhelliad 6.** Dylai Llywodraeth Cymru a Medr adolygu'r wybodaeth bresennol a sicrhau bod gwybodaeth a chanllawiau cyhoeddedig i gyflogwyr yn nodi'n glir y cwestiynau cyffredin ynghylch cyflogi prentis. Dylai unrhyw ddeunydd newydd fod yn seiliedig ar yr hyn mae cyflogwyr yn dweud eu bod nhw ei angen. Rhaid i Lywodraeth Cymru a Medr hefyd ystyried 'prinder amser' busnesau bach a chanolig wrth ymgysylltu â busnesau a'i gwneud mor hawdd â phosibl iddynt fod yn rhan o raglenni prentisiaethau.

[99] Tystiolaeth Ysgrifenedig: Llywodraeth Cymru

# 6. Anghenion economaidd

**109.** Clywodd y Pwyllgor lawer o dystiolaeth am bwysigrwydd sicrhau bod fframweithiau prentisiaeth yn parhau i fod yn berthnasol i ddiwallu'r galw, a chefnogi twf economaidd a thechnoleg sy'n newid.

**110.** Dywedodd Hyfforddiant Educ8 wrth y Pwyllgor:

> *"Apprenticeship pathways in Wales are a vital mechanism for addressing skills shortages and supporting businesses. However, their effectiveness depends on continuous employer engagement, adaptive frameworks, and stronger progression routes that reflect the realities of evolving industries. Strengthening partnerships between regional skills partnerships, businesses, and training providers will be key to ensuring apprenticeships remain a strong driver of economic growth in Wales."*[100]

**111.** Tynnodd Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru sylw at y broblem nad oes "digon o gyfleoedd ar gael ar gyfer cymwysterau Lefel 4, ac o ganlyniad nid yw awdurdodau lleol yn gallu defnyddio'r llwybrau i brentisiaethau fel modd o fynd i'r afael â'r bylchau mewn sgiliau" mewn rolau proffesiynol mwy arbenigol ar lefel uwch.[101]

**112.** Clywodd aelodau alwadau i sicrhau bod data yn gyfredol i nodi prinder sgiliau yn well. Dywedodd Bwrdd Hyfforddi'r Diwydiant Adeiladu yng Nghymru wrth yr Aelodau y gallai llwybrau prentisiaethau gael eu llywio'n well gan ddata a gwybodaeth am brinder sgiliau a'r tueddiadau a ragwelir mewn gweithgarwch adeiladu dros y blynyddoedd i ddod. Tynnodd sylw at argymhelliad yr Adolygiad o Gymwysterau Galwedigaethol yng Nghymru ar gyfer Llywodraeth Cymru i ddiffinio'r galw yn genedlaethol yn y dyfodol am anghenion galwedigaethol a sgiliau yng Nghymru, ac awgrymwyd y gallai hyn lywio datblygiad y cwricwlwm ochr yn ochr ag anghenion a fframiwyd gan Bartneriaethau Sgiliau Rhanbarthol.[102]

**113.** Dywedodd Gyrfa Cymru wrth y Pwyllgor am waith mae'n ei wneud ar hyb data sydd â photensial i roi'r wybodaeth iddo, a rhoi'r ymdeimlad o gysylltiad o'r cyfnod cyn-16 oed hyd at bobl mewn cyflogaeth a phobl nad ydynt mewn cyflogaeth. Gan hynny, gallai lywio sut mae'n cynllunio darpariaeth yn strategol, a

[100] Tystiolaeth Ysgrifenedig: Grŵp Hyfforddi Educ8
[101] Tystiolaeth Ysgrifenedig: Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru
[102] Tystiolaeth Ysgrifenedig: CITB Cymru (Bwrdd Hyfforddi'r Diwydiant Adeiladu)

gallai edrych ar ble mae'r prinder sgiliau. Aeth ymlaen i ddweud bod angen buddsoddiad ar yr Hyb, ac roedd yn trafod gyda Medr pa rôl y gallai ei chwarae.[103]

**114.** Dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi, Ynni a Chynllunio wrth y Pwyllgor bod amrywiaeth eang iawn o brentisiaethau sy'n diwallu anghenion diwydiant, ac aeth ymlaen i ddweud bod busnesau'n aml yn canu clodydd y ddarpariaeth prentisiaethau sydd ar gael yng Nghymru. Nododd ei bod hi'n bwysig iawn bod y Llywodraeth yn cadw'r wybodaeth ddiweddaraf am eu hanghenion ac yn deall eu hanghenion.[104]

**115.** O ran data, dywedodd ei bod hi o'r farn bod angen mwy o ddata o safon uwch bob amser, ac o ran prentisiaid a'r ddarpariaeth gysylltiedig yng Nghymru, y bydd hynny'n fater i Medr yn bennaf yn y dyfodol, ond bod Llywodraeth Cymru yn gweithio'n agos iawn gyda'r Swyddfa Ystadegau Gwladol ar y math hwnnw o gyfres ehangach o ddata cyflogaeth.[105]

**116.** Mae gan Bartneriaethau Sgiliau Rhanbarthol rôl bwysig i'w chwarae yn hyn o beth, fel y nodir yn adroddiad ein Pwyllgor rhagflaenol yn 2019. Dylent chwarae rhan allweddol o ran sicrhau bod prentisiaethau yn adlewyrchu anghenion yr economi ranbarthol a chenedlaethol i liniaru risgiau darpariaeth, gan ganolbwyntio ar anghenion penodol iawn rhai cyflogwyr lleol.

## Ein barn ni

Fel y nodwyd drwy gydol yr adroddiad hwn, mae angen rhaglen brentisiaethau sy'n hyblyg ac yn ymatebol i ddiwallu anghenion economaidd, gwasanaethu economïau sy'n dod i'r amlwg a llenwi bylchau sgiliau.

Credwn fod data yn hanfodol i sicrhau y gall y system fod yn ymatebol yn y ffordd hon. Byddwn yn dilyn datblygiad y ganolfan ddata mae Gyrfa Cymru yn ei datblygu.

Dylai Partneriaethau Sgiliau Rhanbarthol fod yn chwarae rôl allweddol o ran sicrhau bod prentisiaethau yn adlewyrchu anghenion yr economi ranbarthol a chenedlaethol.


[103] Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 23 Ionawr 2025, Cofnod y Trafodion, Paragraff 397
[104] Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 12 Chwefror 2025, Cofnod y Trafodion, Paragraffau 265-266
[105] Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 12 Chwefror 2025, Cofnod y Trafodion, Paragraff 186

# 7. Rôl Llywodraeth Cymru

**117.** Yn hanesyddol, roedd Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi ystadegau prentisiaethau fesul chwarter blwyddyn yn ôl sector.[106] Mae Medr wedi ymgymryd â'r cyfrifoldeb hwn. Mae'r ystadegau hyn wedi dangos gostyngiad yn nifer y rhai sy'n dechrau ar brentisiaethau, gyda'r ddau gyhoeddiad diweddaraf yn nodi:

- Dechreuwyd 4,380 o raglenni dysgu prentisiaethau yn Ch4 2023/24, o'i gymharu â 5,715 o raglenni dysgu prentisiaethau yn Ch4 2022/23;[107] a
- Dechreuwyd 3,620 o raglenni dysgu prentisiaethau yn Ch2 2024/25 (dros dro), o'i gymharu â 4,525 o raglenni dysgu prentisiaethau yn Ch2 2023/24.[108]

**118.** Mae gan Medr ddangosfwrdd rhyngweithiol ar ei wefan hefyd sy'n nodi nifer y rhai sy'n dechrau prentisiaethau ar ffurf graff:




Ffynhonnell: Medr Rhaglenni dysgu Prentisiaeth a ddechreuwyd: dangosfwrdd rhyngweithiol

**119.** Roedd y Rhaglen Lywodraethu yn cynnwys targed i greu 125,000 o brentisiaethau i bob oed.[109] Ym mis Mehefin 2024, gosododd Ysgrifennydd y

---

[106] Statscymru.llyw.cymru: Rhaglenni dysgu prentisiaeth a ddechreuwyd fesul chwarter, sector a math o raglen
[107] Medr.cymru: Rhaglenni dysgu prentisiaeth a ddechreuwyd: Mai i Gorffennaf 2024
[108] Medr.cymru: Rhaglenni dysgu prentisiaeth a ddechreuwyd: Tachwedd 2024 i Ionawr 2025 (dros dro)
[109] Llyw.Cymru Rhaglen lywodraethu

Cabinet dros yr Economi, Ynni a'r Gymraeg darged newydd o 100,000 o bobl yn dechrau ar brentisiaethau pob oed ar gyfer Tymor y Senedd hon.[110]

**120.** Clywodd y Pwyllgor bryderon ynghylch y gostyngiad yn nifer y prentisiaethau a ddechreuodd dros y flwyddyn ddiwethaf. Awgrymodd y Partneriaethau Sgiliau Rhanbarthol y gallai hyn greu prinder sgiliau. Dywedodd Partneriaeth Sgiliau Rhanbarthol Gogledd Cymru wrth y Pwyllgor fod y gostyngiad yn y nifer sy'n dechrau prentisiaethau, yn enwedig mewn sectorau allweddol fel adeiladu, iechyd a gofal cymdeithasol, a pheirianneg, yn bryder cynyddol. Dywedodd fod prentisiaethau yn gwasanaethu fel piblinell hanfodol ar gyfer datblygu gweithlu medrus, a gallai gostyngiadau yn y sectorau hyn arwain at brinder sgiliau hirdymor.[111]

**121.** Priodolodd Estyn y gostyngiad hwn yn nifer y rhai sy'n dechrau prentisiaethau i'r gostyngiad diweddar yn y cyllid ar gyfer prentisiaethau. Eglurodd, yn ystod blwyddyn gontract 2024-2025, y bu toriad cyffredinol o 14% i ddarparwyr prentisiaethau, gyda chymharol ychydig o rybudd ymlaen llaw. Aeth ymlaen i ddweud bod hyn wedi arwain at bron i 6,000 yn llai o bobl yn dechrau ar brentisiaethau yng Nghymru eleni, ac effaith 'rhediad byr' o £50.3 miliwn ar yr economi. Dywedodd hefyd mai'r sectorau iechyd a gofal cymdeithasol ac adeiladu oedd y rhai a deimlodd yr effaith fwyaf a bod y toriadau cyllid yn effeithio'n anghymesur ar y rhai mwyaf difreintiedig ym mhoblogaeth Cymru.[112]

## Strategaeth addysg alwedigaethol

**122.** Ym mis Mehefin 2022, penododd Llywodraeth Cymru Sharron Lusher yn Gadeirydd Grŵp Llywio Cymwysterau Galwedigaethol Cymru.[113] Cyhoeddwyd adroddiad y Grŵp ym mis Medi 2023. Nodir yn yr adroddiad:

> *"Nid oes gan Gymru strategaeth ar gyfer addysg a hyfforddiant galwedigaethol – yn wir nid oes ganddi strategaeth gyffredinol ar gyfer dysgu ôl-16. Mae angen strategaeth arnom sy'n cyfuno'r gwahanol elfennau sy'n ymwneud ag addysg a hyfforddiant galwedigaethol a darparu cymwysterau, mewn un cynllun cydlynol".*[114]

---

[110] Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 26 Mehefin 2024, Cofnod y Trafodion, Paragraff 121
[111] Tystiolaeth Ysgrifenedig: Partneriaeth Sgiliau Rhanbarthol Gogledd Cymru
[112] Tystiolaeth Ysgrifenedig: Estyn
[113] Llywodraeth Cymru: Grŵp Llywio Cymwysterau Galwedigaethol Cymru
[114] Llywodraeth Cymru: Adolygiad o gymwysterau galwedigaethol yng Nghymru, Gorffennaf 2023

**123.** Dywedodd Sharron Lusher wrth y Pwyllgor y bu cynnydd arafach ar rai o'r argymhellion arbennig o bwysig, ac y byddai'r rheiny'n cynnwys strategaeth addysg alwedigaethol. Ychwanegodd y dylai'r strategaeth fod yn gyson â'r cwricwlwm 14-16 a ffurfio rhan o strategaeth ehangach ar gyfer addysg ôl-16 – nid strategaeth alwedigaethol ar ei phen ei hun.[115]

**124.** Clywodd y Pwyllgor, gyda chymaint o sefydliadau yn ymwneud ag addysg a hyfforddiant, fod angen gweledigaeth glir i alinio pawb er mwyn diwallu anghenion diwydiant a'r economi. Dywedodd Ffederasiwn Hyfforddiant Cenedlaethol Cymru wrth yr Aelodau y byddai cael strategaeth gynhwysfawr yn darparu cyfeiriad clir a nodau mesuradwy i'r Llywodraeth a'r darparwyr. Eglurodd mai'r llinyn aur ar gyfer y strategaeth honno bryd hynny fyddai blaenoriaethau'r Llywodraeth. Gan hynny, mae'r cyfan yn eistedd yn daclus gyda'i gilydd ac mae gan bawb weledigaeth glir o'r hyn y ceisir ei gyflawni, gyda hyn yn arwain y ffordd.[116]

**125.** Mae'r galwadau hyn yn cael eu hadleisio yn yr adroddiad Pontio i Fyd Gwaith.[117] Yn yr adroddiad, gwnaed nifer o argymhellion i sylw Llywodraeth Cymru, gan gynnwys:

- gweithio, drwy Medr, gyda rhanddeiliaid i atal y sector rhag darnio, a
- gwella dewis â ffocws, amrywiaeth a chysondeb mewn darpariaeth gradd a phrentisiaethau uwch, gan gynnwys ystyried integreiddio fertigol â lefelau is.

**126.** Ar 24 Ebrill ysgrifennodd y Gweinidog Addysg Bellach ac Uwch at y Pwyllgor, yn ymateb i lythyr gan y Cadeirydd ynglŷn â datblygu strategaeth genedlaethol ar gyfer addysg a hyfforddiant galwedigaethol. Dywedodd y Gweinidog bod "gweithredu argymhellion yr Adolygiad o Gymwysterau Galwedigaethol a'r adroddiad Pontio i Fyd Gwaith yn parhau i fod yn flaenoriaeth allweddol i Lywodraeth Cymru." Roedd y llythyr yn cynnwys "cynllun cyflawni drafft ar gyfer gweithredu'r argymhellion er mwyn i'r Pwyllgor gael syniad o gwmpas a graddfa'r rhaglen, yn ogystal â'r amserlen ar gyfer ei chyflawni". Mae'r cynllun hwn yn nodi

[115] Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 23 Ionawr 2025, Cofnod y Trafodion, Paragraff 40
[116] Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 23 Ionawr 2025, Cofnod y Trafodion, Paragraff 216
[117] Llywodraeth Cymru: Pontio i Fyd Gwaith – Adroddiad ar gyfer Llywodraeth Cymru, Mehefin 2023

amserlen ddangosol ar gyfer strategaeth addysg a hyfforddiant galwedigaethol drafft yn gynnar yn 2026.[118]

**127.** Yn dilyn hynny, ar 26 Mehefin, cyhoeddodd y Gweinidog Addysg Bellach ac Uwch ddatganiad ysgrifenedig yn rhoi rhagor o fanylion ac yn nodi amserlen arfaethedig ar gyfer gweithredu argymhellion rhyng-ddibynnol yr Adolygiad o Gymwysterau Galwedigaethol a'r Adroddiad ar Bontio i Fyd Gwaith. Dywedodd yn y datganiad bod hyn "yn cynnwys cyd-gynhyrchu Strategaeth Addysg a Hyfforddiant Galwedigaethol drafft yn benodol, yng nghyd-destun yr agenda addysg drydyddol ehangach."

**128.** Yn ôl y Datganiad, nod Llywodraeth Cymru yw "cefnogi'r agenda gyfranogi ehangach trwy greu llwybrau cliriach a mwy hygyrch i bob dysgwr. Byddwn hefyd yn sicrhau bod addysg a hyfforddiant galwedigaethol yn cyd-fynd yn agos â'r agenda sgiliau ehangach, gan ymateb i anghenion cyflogwyr a chyfrannu at ddarparu swyddi gwyrdd." Yn ogystal, rhoddodd y datganiad ymrwymiad amser mwy cadarn, gan nodi y bydd swyddogion Llywodraeth Cymru "yn gweithio tuag at ddatblygu Strategaeth Addysg a Hyfforddiant Galwedigaethol ddrafft erbyn Ebrill 2026."[119]

## Medr

**129.** Mae Medr wedi cymryd cyfrifoldeb am reoli'r contract prentisiaeth presennol gyda darparwyr ac am gyllido prentisiaethau. Cyhoeddodd ei gynllun strategol cyntaf ym mis Ebrill. Mae'n cynnwys ymrwymiad sylfaenol i:

> *"Sicrhau bod darpariaeth prentisiaethau'n ymateb i flaenoriaethau Llywodraeth Cymru ac yn diwallu anghenion dysgwyr, cyflogwyr a'r economi".*[120]

**130.** Er mwyn cyflawni'r ymrwymiad hwn, dywedodd Medr wrth y Pwyllgor y byddai'n ymgymryd â:

> *"extensive engagement with learning providers, industry, employers, stakeholders, apprentices and wider to inform the development of the new apprenticeship programme, which is due to start in August*

[118] Llythyr gan y Gweinidog Addysg Bellach ac Uwch at Gadeirydd Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 24 Ebrill 2025
[119] Llywodraeth Cymru: Datganiad Ysgrifenedig: Diweddariad ar Addysg a Hyfforddiant Galwedigaethol, 26 Mehefin 2025
[120] Medr.cymru: Cynllun Strategol 2025 - 2030

> *2027. This will involve research and evaluation of the existing programme, which will include the current delivery model and performance/outcomes across all sectors. We will also look at good and bad practices within Wales and across the UK/world. By the end of 2025 Medr will have developed the New Apprenticeship Programme's strategic visions and aims and objectives."*[121]

**131.** Y mae hefyd wedi datblygu rhaglen waith i adolygu pob fframwaith prentisiaeth i sicrhau eu bod yn bodloni anghenion yr economi ac anghenion dysgwyr.[122]

**132.** Fe wnaeth llawer o randdeiliaid sylwadau ar y rôl y gall Medr ei chwarae o ran ymgysylltu â busnesau a'r Partneriaethau Sgiliau Rhanbarthol i hyrwyddo cydweithio gyda'r sector addysg yn well. Fel y soniwyd uchod, roedd FSB Cymru yn teimlo y byddai Medr yn ei gwneud hi'n haws i fusnesau bach a chanolig ymgysylltu â phrentisiaethau, gan gynnwys ynghylch rheoleiddio. Dywedodd wrth y Pwyllgor bod cael Medr fel pwynt cyswllt canolog i symleiddio'r system y mae ganddo oruchwyliaeth reoleiddiol drosto, a hefyd gyda chylch gwaith i wasanaethu'r economi, yn gam cyntaf pwysig ac angenrheidiol.[123]

**133.** Awgrymodd y Partneriaethau Sgiliau Rhanbarthol eu bod yn obeithiol ynglŷn â'r adolygiadau ac yn gweithio gyda Medr i gefnogi anghenion dysgwyr a busnes. Dywedodd Partneriaeth Sgiliau Rhanbarthol Gogledd Cymru wrth y Pwyllgor ei bod yn edrych ymlaen at gydweithio â Medr i adolygu fframweithiau prentisiaethau i sicrhau eu bod yn cyd-fynd â gofynion y diwydiant.[124]

## Partneriaethau Sgiliau Rhanbarthol

**134.** Mae pedair Partneriaeth Sgiliau Rhanbarthol yng Nghymru.[125] Bwrdd gwirfoddol, anstatudol sy'n cynnwys cyflogwyr, darparwyr addysg ac eraill yw pob Partneriaeth. Mae'r byrddau yn gwneud argymhellion i Lywodraeth Cymru ar gyrsiau coleg a chyrsiau prentisiaeth amser llawn a niferoedd dysgwyr. Sefydlwyd y Partneriaethau ar wahanol adegau rhwng 2014 a 2022 ac mae pob un wedi datblygu'n annibynnol, wedi eu llywio gan eu rhanbarthau eu hunain a'u Bargeinion Dinesig a Thwf priodol.

[121] Tystiolaeth Ysgrifenedig: Medr
[122] Tystiolaeth Ysgrifenedig: Medr
[123] Tystiolaeth Ysgrifenedig: Ffederasiwn Busnesau Bach Cymru
[124] Tystiolaeth ysgrifenedig: Partneriaeth Sgiliau Rhanbarthol Gogledd Cymru
[125] Busnescymru.llyw.cymru Partneriaethau Sgiliau Rhanbarthol

**135.** Clywodd y Pwyllgor fod y Partneriaethau yn chwarae rôl allweddol yn eu rhanbarthau o ran ymgysylltu â busnesau a nodi anghenion sgiliau. Dywedodd Educ8 Training bod y Partneriaethau yn gweithredu fel pont rhwng busnesau a darparwyr hyfforddiant, gan fwydo gofynion cyflogwyr i'r system sgiliau i sicrhau bod prentisiaethau yn cyd-fynd ag anghenion y farchnad lafur ranbarthol.[126]

**136.** Fe wnaeth rhanddeiliaid sylwadau ar ddefnyddioldeb adroddiadau gwybodaeth am y farchnad lafur y mae pob Partneriaeth yn eu cynhyrchu ar gyfer ei rhanbarth. Fodd bynnag, soniodd llawer hefyd am yr angen am ddarlun cenedlaethol o anghenion sgiliau a chwestiynodd a oedd rôl i'r Partneriaethau ei chwarae yn hynny o beth.

**137.** Esboniodd Medr ei fod yn cael 'gwybodaeth bwysig iawn am y farchnad lafur drwy ei adroddiadau gwybodaeth am y farchnad lafur, drwy ei ddadansoddiad tueddiadau galwedigaethol, heb anghofio'r cynlluniau datblygu sgiliau rhanbarthol tair blynedd mae'n eu rhoi ar waith.[127]

**138.** Fodd bynnag, cafwyd galwadau i sicrhau gweithio cydgysylltiedig ledled Cymru. Dywedodd MakeUK wrth y Pwyllgor ei bod yn bwysig bod:

> *"proper alignment and co-ordination at a national level and a regional level between those bodies. It's right that bodies like the regional skills partnerships are reflecting differences and specific demands associated with local labour markets, but, equally, we have lots of members who operate across multiple sites across Wales, and they want a level of consistency as well in terms of skills policy and the programmes that are available."*[128]

**139.** Aeth ymlaen i ddweud bod hwnnw'n un maes lle hoffai weld ychydig mwy, ac yr hoffai weithio gyda Medr ychydig yn fwy i sicrhau'r cydbwysedd cywir rhwng llunio polisïau cenedlaethol a rhanbarthol.[129]

**140.** O ran yr angen am gydlynu gwybodaeth am y farchnad lafur ledled Cymru, dywedodd swyddog o Lywodraeth Cymru wrth y Pwyllgor fod Llywodraeth Cymru yn edrych ar:

---

[126] Tystiolaeth ysgrifenedig: Grŵp Hyfforddi Educ8
[127] Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 23 Ionawr 2025, Cofnod y Trafodion, Paragraff 33
[128] Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 23 Ionawr 2025, Cofnod y Trafodion, Paragraff 362
[129] Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 23 Ionawr 2025, Cofnod y Trafodion, Paragraff 362

> *"how do we make sure that the data that we get at a national level drives the decisions that we need to take? How do we make sure that the contributions of RSPs actually lead to us being able to translate that into priorities to give to Medr, that Medr then can translate into funding methodologies, into distribution to partners? How do we make sure that the range of offers that we've got for supporting routes into employment are the right ones? That's kind of where we are on that journey. And making sure that we do actually take all of that information and turn it into something that suits the economy and the learner."*[130]

## Ein barn ni

Rydym yn pryderu ynghylch y gostyngiad yn nifer y prentisiaethau a ddechreuwyd. Mae angen i Lywodraeth Cymru ddeall effaith hyn ar hyder busnesau, dysgwyr, yn enwedig y rhai o ardaloedd difreintiedig, ac economi Cymru.

Mae gan y Pwyllgor bryderon sylweddol ynglŷn â'r diffyg brys wrth ddatblygu strategaeth addysg a hyfforddiant galwedigaethol Llywodraeth Cymru. Dylai strategaeth addysg a hyfforddiant galwedigaethol gref fynd i'r afael â llawer o'r materion a godwyd yn yr adroddiad hwn, a dylai ei ddatblygu a'i gyhoeddi fod yn flaenoriaeth.

Credwn hefyd, yn seiliedig ar alwadau a nodir yn yr adran hon a'r adran flaenorol, fod yn rhaid i Lywodraeth Cymru weithio gyda rhanddeiliaid i sicrhau bod ganddi ddealltwriaeth gref o wybodaeth am y farchnad lafur ledled y wlad a defnyddio hyn i helpu i bennu agenda prentisiaethau yng Nghymru.

Dylai Partneriaethau Sgiliau Rhanbarthol fod yn chwarae rhan allweddol o ran sicrhau bod prentisiaethau'n adlewyrchu anghenion yr economi ranbarthol a chenedlaethol.

**Casgliad 10.** Mae'r Pwyllgor yn bryderus iawn am effaith y gostyngiad yn nifer y rhai sy'n dechrau ar brentisiaethau. Gallai hyn arwain at heriau sgiliau tymor hwy mewn rhai sectorau. Mae angen i Lywodraeth Cymru sicrhau ei bod yn deall yn llawn beth yw effaith hyn ar hyder busnesau, dysgwyr ac economi Cymru.

[130] Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 12 Chwefror 2025, Cofnod y Trafodion, Paragraff 273

**Casgliad 11.** Mae'r Pwyllgor yn pryderu am y diffyg brys wrth fynd i'r afael â materion o fewn ac o amgylch y rhaglen brentisiaethau. Yn benodol, os nad yw prentisiaethau yn diwallu anghenion cyflogwyr a'r economi, bydd cyfleoedd yn cael eu colli mewn sectorau sy'n dod i'r amlwg a sectorau lle mae pethau'n newid yn gyflym.

**Argymhelliad 7.** Rhaid i Lywodraeth Cymru wneud cynnydd cyflymach wrth ddatblygu strategaeth addysg a hyfforddiant galwedigaethol, fel yr argymhellir gan Grŵp Llywio Cymwysterau Galwedigaethol Cymru a'r adroddiad Pontio i Fyd Gwaith. Dylai'r Pwyllgor gael yr wybodaeth ddiweddaraf am y cynnydd hyd yn hyn ac yn rheolaidd o hyn ymlaen.

**Argymhelliad 8.** Rhaid i Lywodraeth Cymru weithio gyda Phartneriaethau Sgiliau Rhanbarthol, Gyrfa Cymru a rhanddeiliaid eraill i gasglu a deall gwybodaeth am y farchnad lafur ledled Cymru.

# Atodiad 1: Rhestr o sesiynau tystiolaeth lafar.

Rhoddodd y tystion a ganlyn dystiolaeth lafar i'r pwyllgor ar y dyddiadau a nodir isod. Gellir gweld trawsgrifiadau o'r holl sesiynau tystiolaeth lafar ar dudalen y Pwyllgor ar y we.

| Dyddiad | Enw a Sefydliad |
|---|---|
| **23 Ionawr 2025** | **Rhian Edwards, Cyfarwyddwr Gweithredol Polisi,** Medr<br>**Harriet Barnes, Cyfarwyddwr Ymchwil, Arloesi a Sgiliau,** Medr<br>**Sharron Lusher, Cyn Gadeirydd,** Bwrdd Adolygu Cymwysterau Galwedigaethol<br>**Dr Barry Walters, Pennaeth Coleg Sir Benfro a Chadeirydd Grŵp Strategol Dysgu Seiliedig ar Waith a Chyflogadwyedd,** Colegau Cymru<br>**Lisa Mytton, Cyfarwyddwr Strategol,** Ffederasiwn Hyfforddiant Cenedlaethol Cymru<br>**Grant Santos, Prif Swyddog Gweithredol,** Grŵp Hyfforddi Educ8<br>**Nerys Bourne, Cyfarwyddwr Strategaeth Cwsmeriaid a Datblygu Gwasanaethau,** Gyrfa Cymru<br>**Amie Field, Pennaeth Gwasanaethau i Bobl Ifanc,** Gyrfa Cymru<br>**Jamie Cater, Uwch Reolwr Polisi (Cyflogaeth),** Make UK |
| **12 Chwefror 2025** | **Leigh Hughes, Cadeirydd,** Bwrdd Cyflogaeth a Sgiliau Prifddinas-Ranbarth Caerdydd<br>**Owain Jones,** Aelod o grŵp clwstwr Partneriaeth Dysgu a Sgiliau Rhanbarthol De-orllewin Cymru, ac Ymddiriedolwr ac Aelod o Fwrdd CITB<br>**Pryderi ap Rhisiart, Cadeirydd y Grŵp Sgiliau Digidol,** Partneriaeth Sgiliau Rhanbarthol Gogledd Cymru<br>**Ceri Stephens, Cadeirydd,** Grŵp clwstwr Gweithgynhyrchu a Pheirianneg y Bartneriaeth |

| Dyddiad | Enw a Sefydliad |
|---|---|
| | Sgiliau Rhanbarthol, a grŵp Gweithgynhyrchu Canolbarth Cymru<br>**Rebecca Evans, Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi, Ynni a Chynllunio,**<br>Llywodraeth Cymru<br>**Neil Surman, Dirprwy Gyfarwyddwr Sgiliau,**<br>Llywodraeth Cymru<br>**Rachel Sanders, Pennaeth Prentisiaethau,**<br>Llywodraeth Cymru<br>**Jo Salway, Cyfarwyddwr - Partneriaeth Gymdeithasol, Cyflogadwyedd a Gwaith Teg,**<br>Llywodraeth Cymru |

# Atodiad 2: Rhestr o'r dystiolaeth ysgrifenedig

Rhoddodd y bobl a'r sefydliadau a ganlyn dystiolaeth ysgrifenedig i'r Pwyllgor. Mae'r holl ymatebion i'r ymgynghoriad, a gwybodaeth ysgrifenedig ychwanegol, ar dudalen y Pwyllgor ar y we.

| Cyfeirnod | Sefydliad |
|---|---|
| **AP 01** | Hyfforddiant Cambrian |
| **AP 02** | Medr |
| **AP 03** | Ffederasiwn Hyfforddiant Cenedlaethol Cymru |
| **AP 04** | Gyrfa Cymru |
| **AP 05** | Hyfforddiant ACT \| Hyfforddiant ALS |
| **AP 06** | Cyfle Building Skills |
| **AP 07** | Ffederasiwn Busnesau Bach Cymru |
| **AP 08** | Sefydliad y Peirianwyr Sifil Cymru |
| **AP 09** | WeGetDesign |
| **AP 10** | Coleg Brenhinol Therapyddion Iaith a Lleferydd |
| **AP 11** | Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe |
| **AP 12** | Grŵp Hyfforddi Educ8 |
| **AP 13** | Partneriaeth Dysgu a Sgiliau Rhanbarthol De-orllewin Cymru |
| **AP 14** | Prifysgol Nottingham Trent |
| **AP 15** | Gofal Cymdeithasol Cymru |
| **AP 16** | Partneriaeth Sgiliau Ranbarthol Gogledd Cymru |
| **AP 17** | Ysbrydoli Merthyr Tudful |
| **AP 18** | Coleg Brenhinol Podiatreg |
| **AP 19** | Y Brifysgol Agored yng Nghymru |
| **AP 20** | Addysg a Gwella Iechyd Cymru (AaGIC) |
| **AP 21** | Comisiynydd y Gymraeg |
| **AP 22** | Partneriaeth Sgiliau Rhanbarthol Canolbarth Cymru |

| Cyfeirnod | Sefydliad |
|---|---|
| **AP 23** | Bwrdd Hyfforddi'r Diwydiant Adeiladu yng Nghymru |
| **AP 24** | Y Coleg Cymraeg Cenedlaethol |
| **AP 25** | Airbus |
| **AP 26** | Partneriaeth Dysgu Seiliedig ar Waith Academi Sgiliau Cymru |
| **AP 27** | Undeb Cenedlaethol yr Athrawon, Cymru (NUT) |
| **AP 28** | Prifysgolion Cymru |
| **AP 29** | Partneriaeth Sgiliau Prifddinas-Ranbarth Caerdydd |
| **AP 30** | Estyn |
| **AP 31** | Cymdeithas Contractwyr Trydanol Cymru (ECA) |
| **AP 32** | Ffederasiwn Proffesiynol Perthynol i Iechyd Cymru (AHPF) |
| **AP 33** | Horticultural Trades Association |
| **AP 34** | Ysgol Daearyddiaeth a Chynllunio, Prifysgol Caerdydd |
| **AP 35** | ColegauCymru |
| **AP 36** | Cymdeithas Cyfrifwyr Ardystiedig Siartredig Cymru (ACCA) |
| **AP 37** | Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro |
| **AP 38** | Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru |
| **AP 39** | Prifysgol Metropolitan Caerdydd |